2025

# Cyflwr chwarae ym Mlaenau Gwent

*Crynodeb Gweithredol*













Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol o Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025: Cyflwr chwarae ym Mlaenau Gwent.


| | |
|---|---|
| Tudalen 2 | Datganiad cryno |
| Tudalen 5 | Methodoleg |
| Tudalen 9 | Ymgysylltu â phlant a theuluoedd |
| Tudalen 15 | Manteisio i’r eithaf ar adnoddau |
| Tudalen 21 | Monitro digonolrwydd cyfleoedd chwarae |
| Tudalen 23 | Casgliad |
| Tudalen 27 | Dadansoddiad o’r themâu |

- Poblogaeth
- Mannau lle mae plant yn chwarae
- Darpariaeth dan oruchwyliaeth
- Synergedd polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth

# Datganiad Cryno gan yr Awdurdod Lleol

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i fod wedi ymrwymo i gefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae ac wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i greu 'Cymru: Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae'.[1] Gan mai dyma bumed asesiad yr awdurdod lleol, rydym yn parhau i sicrhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael yr amser, y lle a'r caniatâd i chwarae. Gan gydnabod bod gan bob plentyn yr hawl i chwarae, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod chwarae yn hanfodol ar gyfer iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant, fel y'i hymgorfforir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Ar gyfer y ddyletswydd digonolrwydd cyfleoedd chwarae, y diffiniad o chwarae a fabwysiadwyd yw un a ddatblygwyd gan y sector chwarae ac a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae'n nodi:

*"Mae chwarae'n ymddygiad y mae'r plentyn wedi'i ddewis o'i wirfodd, yn ei lywio ei hun ac yn ei wneud er ei fwyn ei hun. Mae'n cael ei wneud heb olwg ar unrhyw nod na gwobr allanol, ac mae'n rhan sylfaenol ac annatod o ddatblygiad iach – nid yn unig o ran y plant unigol, ond hefyd o ran y gymdeithas y maent yn byw ynddi."* [2]

Mae Blaenau Gwent yn cydnabod hawl pob plentyn i chwarae a'r rôl hanfodol sydd ganddo yn eu bywydau. Mae'r awdurdod lleol, ynghyd â'i bartneriaid, wedi ymrwymo i roi cyfleoedd i blant chwarae, gan sicrhau eu bod yn cael hwyl ac yn byw bywydau hapus ac iach.

Ein nod yw i bob plentyn a pherson ifanc ym Mlaenau Gwent gael yr amser, y lle a'r caniatâd i chwarae, gan gynnig cyfleoedd iddynt sy'n heriol ac yn hyblyg ac sy'n annog creadigrwydd. Mae'r cyfleoedd hyn yn cefnogi eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol, gwybyddol ac ysbrydol, gan ganiatáu iddynt fwynhau buddion chwarae.

Mae'r ddyletswydd digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn sicrhau bod gan yr awdurdod lleol y mecanweithiau angenrheidiol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r weledigaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i rieni, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol gydnabod pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant a deall bod gan bob un ohonom rôl i'w chwarae.

Nod yr awdurdod lleol yw adeiladu ar y sylfeini presennol, gan weithio ar y cyd i ddiwallu anghenion y gymuned. Mae'r asesiad yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae ar gyfer datblygiad plant ac yn amlinellu cynllun cynhwysfawr i wella cyfleoedd chwarae ym Mlaenau Gwent.

Dyma brif ganlyniadau a phwyntiau allweddol yr asesiad:

- Poblogaeth: Mwy o ymgysylltu â phlant i ddeall eu hanghenion chwarae.
- Mannau chwarae: Gwella parciau, adnewyddu meysydd chwarae, creu mannau chwarae hygyrch, a hyrwyddo mannau cymunedol.
- Darpariaeth dan oruchwyliaeth: Hyrwyddo gwaith chwarae fel proffesiwn, sicrhau cynaliadwyedd rhaglenni presennol, ac archwilio cyfleoedd o ran adnoddau i ehangu a datblygu.
- Polisi ac ymgysylltu: Diweddaru gwybodaeth ar wefannau, cefnogi mentrau cymunedol, ac integreiddio chwarae i gynlluniau strategol.

1 Cymru: Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae: Canllawiau Statudol (Ionawr 2025)
2 Cymru: Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae: Canllawiau Statudol (Ionawr 2025)

## Ein cynllun gweithredu arfaethedig ar gyfer chwarae

Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn parhau â'u hymrwymiad i ddatblygu ymhellach gyfleoedd i blant chwarae. Mae cynllun gweithredu chwarae'r awdurdod lleol wedi'i ddatblygu i gynnal y cryfderau ac ymdrin â'r diffygion a nodwyd yn yr asesiad. Er bod rhai meini prawf yn cael eu bodloni, mae camau gweithredu generig a fydd yn cefnogi'r thema i sicrhau bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud i sicrhau digon o gyfleoedd i chwarae. Amlinellir camau gweithredu penodol i ymdrin â bylchau a nodwyd a gwella cyfleoedd chwarae.

Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer 2025 wedi'i ddatblygu drwy drafodaethau gyda rhanddeiliaid a phartneriaid lle rydym wedi ystyried y canlynol:

- A yw hwn yn angen brys?
- A yw'n debygol iawn y gallwn wneud gwahaniaeth mawr wrth fynd i'r afael â'r cam gweithredu hwn?
- A yw'r cam gweithredu yn mynd i'r afael ag anghenion chwarae grŵp agored i niwed?
- A oes gennym ni'r gallu i weithio ar y cam gweithredu hwn?
- A allwn ni ddechrau gweithio ar hyn ar unwaith?

Mae'r awdurdod lleol hefyd yn ystyried:

- A oes unrhyw un o'n partneriaid, y gallem weithio gyda nhw neu eu cefnogi, eisoes yn gweithio ar hyn?
- Beth yw goblygiadau cost y cam gweithredu hwn?
- Beth yw manteision y cam gweithredu hwn?
- Oes gennym ni'r sgiliau a'r arbenigedd yn lleol i fynd i'r afael â'r cam gweithredu?

Nid cyfrifoldeb unrhyw adran unigol yw cyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun ac mae'n ddibynnol iawn ar weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae rhai agweddau hefyd yn ddibynnol ar ffynonellau allanol o gyllid grant sydd o natur tymor byr, gan effeithio o bosibl ar gynaliadwyedd rhai o'r camau gweithredu.

Er mwyn cefnogi monitro a gweithredu'r camau gweithredu, rydym yn gwneud y canlynol:

- Diffinio amcanion: Amlinellu'n glir y nodau yr ydym yn anelu at eu cyflawni.
- Nodi camau gweithredu: Rhestru'r tasgau neu'r gweithgareddau penodol sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion hyn.
- Neilltuo cyfrifoldebau: Penderfynu pwy fydd yn gyfrifol am bob cam gweithredu.
- Gosod dyddiadau cau: Sefydlu amserlenni ar gyfer cwblhau pob tasg.
- Dyrannu adnoddau: Sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol (amser, arian, deunyddiau) ar gael.
- Monitro cynnydd: Gwirio statws pob cam gweithredu yn rheolaidd i sicrhau bod popeth ar y trywydd iawn drwy grŵp monitro cefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae.
- Addasu cynlluniau: Bod yn barod i wneud newidiadau yn ôl yr angen yn seiliedig ar gynnydd ac unrhyw wybodaeth newydd.

Dyma gamau gweithredu eang a gynigiwyd i'w cymryd yn 2025:

**Poblogaeth**

1. Ehangu ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i ganfod eu hanghenion a'u diddordebau chwarae i gefnogi Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn y dyfodol.

**Mannau lle mae plant yn chwarae**

2. Casglu gwybodaeth leol am ba wasanaethau a darpariaeth sydd ar gael mewn cymunedau lleol i blant a phobl ifanc sy'n cefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae.
3. Cynyddu ymwybyddiaeth o fannau gwyrdd a chymdogaethol sy'n darparu cyfleoedd i blant chwarae a chynnal asesiad o'r mannau sydd ar gael.
4. Er mwyn cefnogi plant i symud o gwmpas a chael mynediad at gyfleoedd i chwarae, mae yna gamau gweithredu sy'n ymwneud â theithio llesol, hyfforddiant beicio, a llywio cymunedau lleol yn ddiogel.
5. Er mwyn gwella ansawdd mannau chwarae, adnewyddu meysydd chwarae a chefnogi creu mannau chwarae hygyrch a chyfleoedd i blant. Ar yr un pryd, grymuso cymunedau lleol i chwarae eu rhan wrth gefnogi chwarae plant.
6. Adolygu'r rhaglen ysgolion lle mae cyfle i chwarae ac ymgysylltu ag ysgolion i hyrwyddo pwysigrwydd darparu amgylchedd chwarae cyfoethog yn ystod y diwrnod ysgol ac i ganfod a oes cyfleoedd i ddefnyddio tir yr ysgol fel ased cymunedol ar gyfer chwarae.

**Darpariaeth dan oruchwyliaeth**

7. Hyrwyddo gwaith chwarae fel proffesiwn drwy lwybr chwarae.
8. Cyflwyno wythnos hyfforddi ar y cyd cyn gwyliau'r haf ar gyfer Tîm Datblygu Chwaraeon Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a gwirfoddolwyr chwarae cymunedol i gefnogi cynhwysiant a darparu darpariaeth o safon.
9. Sicrhau cynaliadwyedd Wild Tots yn y dyfodol.
10. Edrych ar yr opsiynau i adeiladu ar y cynllun benthyg offer chwaraeon a gynigir mewn llyfrgelloedd lleol, gydag adnoddau i hyrwyddo chwarae.
11. Nodi a oes cyfleoedd i adnoddau fod ar gael ar gyfer chwarae trwy dimau a grwpiau ailgylchu a gwastraff.

**Polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth**

12. Adolygu a diweddaru gwybodaeth ar y wefan gorfforaethol a gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i wneud tudalennau'n fwy bywiog a chroesawgar.
13. Ystyried llwybrau posibl ar gyfer buddsoddiad ar raddfa fwy i gefnogi chwarae plant.
14. Darparu gwybodaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'i ganfyddiadau yn cael eu hintegreiddio i'r gwaith o gynllunio, gweithredu ac adolygu cynlluniau strategol.
15. Sicrhau bod chwarae'n cael ei hyrwyddo mewn agendâu polisi a gwybodaeth perthnasol a bod dull partneriaeth yn cael ei fabwysiadu.

# Methodoleg

DRAFT

Mae 'Cymru: Gwlad Lle mae Cyfle i Chwarae' yn darparu'r canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar weithredu'r broses asesu.

1. Rhaid i awdurdod lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc yn ei ardal yn unol â'r rheoliadau.
2. Sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant a phobl ifanc yn ei ardal, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol.
3. Cyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae yn ei ardal i blant a phobl ifanc.
4. Cadw'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn gyfredol.

Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â phlant, rhieni/gofalwyr, ac unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn chwarae. Er mwyn llunio a llywio canfyddiadau'r asesiad, rhoddwyd ystyriaeth i blant anabl, y rhai sydd â'r Gymraeg fel iaith gyntaf a'r rhai sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, plant nad Saesneg na Chymraeg yw eu hiaith gyntaf, a ffactorau diwylliannol eraill a gofnodwyd, gan gynnwys hil (gan gynnwys plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches).

Mae'r canllawiau'n amlinellu'r naw mater y mae angen eu hystyried:

Mater A: Poblogaeth
Mater B: Diwallu anghenion amrywiol
Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae
Mater Ch: Darpariaeth dan oruchwyliaeth
Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae
Mater Dd: Mynediad i le/darpariaeth
Mater E: Sicrhau a datbygu'r gweithlu chwarae
Mater F: Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys
Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol

Mae'r Pecyn Cymorth Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi'i ddiweddaru ar y cyd â Chwarae Cymru i gynorthwyo awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer cwblhau eu Hasesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu chwarae. Yn dilyn y diweddariad i'r pecyn cymorth, mae'r ddogfen asesu yn adlewyrchu 'themâu' ar gyfer asesu cyfleoedd ar gyfer chwarae sy'n cysylltu â phob un o'r meysydd o faterion deddfwriaethol.

| | |
|---|---|
| • Poblogaeth | Materion A, B, D |
| • Mannau lle mae plant yn chwarae | Materion C, Dd, Ff |
| • Darpariaeth dan oruchwyliaeth | Materion Ch, E |
| • Polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth | Materion Dd, E, F, Ff |

Yr awdurdod lleol yw'r arweinydd strategol ar gyfer chwarae, gyda'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn gyfrifol am fonitro, adolygu, cynllunio a drafftio'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chynlluniau gweithredu chwarae. Cefnogir y broses

asesu gan y Rheolwr Gofal Plant a Chwarae a'r rheolwr gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant, ac mae'r ddau yn ffurfio'r 'Grŵp Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'.

Sefydlwyd amserlen i ymchwilio, casglu ac adolygu data ar gyfer drafftio'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Mae'r canlynol yn amlinellu'r data a ddefnyddiwyd ar gyfer pob thema:

**Poblogaeth**

Mater A – Poblogaeth: Data economaidd-gymdeithasol a demograffig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Swyddog Polisi, Ymchwil a Dadansoddi, a ffynonellau ar y we.

Mater B – Diwallu anghenion amrywiol: Ymatebion o'n harolwg chwarae ar gyfer plant / pobl ifanc, a gwybodaeth gan Teuluoedd yn Gyntaf, y tîm plant ag anableddau, grwpiau ffocws ac ymgysylltu wyneb yn wyneb.

Mater D – Codi tâl am ddarpariaeth chwarae: Gwybodaeth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, gwasanaethau a gynigir gan y tîm chwarae a'r awdurdod lleol, a phartneriaid awdurdod lleol.

**Mannau lle mae plant yn chwarae**

Mater C – Y lle sydd ar gael i blant chwarae: Data o adroddiad arolygu blynyddol yr awdurdod lleol ar ddarpariaeth chwarae ag offer sefydlog heb staff yn yr awyr agored, asesiadau mannau agored, archwiliadau mynediad a chwarae, y Cynllun Datblygu Lleol, mapiau System Gwybodaeth Ddaearyddol, gwybodaeth gymunedol leol, adran y parciau, y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, a chanfyddiadau arolygon / grwpiau ffocws.

Mater Dd – Mynediad i le/darpariaeth: Data o'r timau rheoli traffig, teithio llesol a diogelwch ar y ffyrdd. Cynhaliwyd asesiadau mannau chwarae hefyd.

Mater Ff – Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol: Dogfennau polisi a strategol allweddol gan gydweithwyr ym meysydd trafnidiaeth, addysg, partneriaethau, cynllunio, y Blynyddoedd Cynnar, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, ac iechyd a diogelwch.

**Darpariaeth dan oruchwyliaeth**

Mater Ch – Darpariaeth dan oruchwyliaeth: Gwybodaeth gan ddarparwyr darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth, grwpiau'r Blynyddoedd Cynnar a grwpiau rhieni a phlant bach, clybiau ar ôl yr ysgol yn ein cynllun sicrhau ansawdd, a thîm chwarae, gwasanaeth ieuenctid ac ymddiriedolaeth hamdden yr awdurdod lleol.

Mater E – Sicrhau a datbygu'r gweithlu chwarae: Taenlen o gymwysterau sector a gedwir gan Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yr awdurdod lleol, a rhaglen hyfforddi flynyddol Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae.

**Polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth**

Mater Dd – Mynediad i le/darpariaeth: Data o'r timau rheoli traffig, teithio llesol a diogelwch ar y ffyrdd. Cynhaliwyd asesiadau mannau chwarae hefyd.

Mater E – Sicrhau a datbygu’r gweithlu chwarae: Taenlen o gymwysterau sector a gedwir gan Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yr awdurdod lleol, a rhaglen hyfforddi flynyddol Partneriaeth Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae.

Mater F – Ymgysylltu â’r gymuned a’i chynnwys: Data gan dîm chwarae’r awdurdod lleol, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, a strategaeth ymgysylltu Blaenau Gwent.

Mater Ff – Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol: Dogfennau polisi a strategol allweddol gan gydweithwyr ym meysydd trafnidiaeth, addysg, partneriaethau, cynllunio, y Blynyddoedd Cynnar, Dechrau’n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, ac iechyd a diogelwch.

Mae camau gweithredu yn dilyn yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn benodol ac yn realistig ac yn gyraeddadwy o fewn cyllidebau ac adnoddau. Mae’r cynlluniau gweithredu digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn cael eu datblygu a’u hadolygu'n flynyddol i gofnodi cynnydd a gosod camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae’r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a’r cynllun gweithredu yn cael eu cymeradwyo gan Bartneriaeth Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae a’r Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, cyn cyfnod ymgynghori gyda phartneriaid a swyddogion arweiniol a chymeradwyaeth derfynol gan y Pwyllgor Gweithredol.

## Pa adrannau / meysydd polisi yn yr awdurdod lleol oedd yn rhan o’r broses a sut

Fe wnaethon ni ddefnyddio dull hyblyg, gan gynnwys ymchwil bwrdd gwaith o feysydd polisi, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ymgynghoriadau, grwpiau ffocws, arolygon, galwadau ffôn ac e-byst, i gasglu data gan swyddogion arweiniol yr awdurdod lleol. Cyfrannodd cydweithwyr eu harbenigedd, gan nodi cryfderau a diffygion a darparu atebion i fylchau data.

- Gwasanaethau Plant
    - Gofal Plant a Chwarae
    - Plant sy’n Derbyn Gofal
    - Plant ag Anableddau
    - Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
    - Dechrau’n Deg
    - Teuluoedd yn Gyntaf
- Addysg
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Cynllunio
- Gwasanaethau Cymunedol – Gwasanaethau Cymdogaeth
- Adfywio – Traffig, Amgylchedd Naturiol, Amgylchedd Adeiledig
- Tai ac Iechyd yr Amgylchedd

**Pa bartneriaid allanol oedd yn rhan o'r broses a sut**

Yn ogystal ag adrannau a meysydd polisi'r awdurdod lleol, mae cynrychiolaeth o bartneriaid allanol hefyd wedi cael ei chroesawu ar y Grŵp Cefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

- Cymdeithasau tai lleol: Cartrefi Melin, Tai Calon, Tai Unedig Cymru a Linc Cymru
- Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin – Tîm Datblygu Chwaraeon
- Clybiau Plant
- Barnardo's

Cynhaliwyd mwy o waith ymgysylltu drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb, negeseuon e-bost ac ymchwil bwrdd gwaith.





*Lluniau trwy garedigrwydd y rhai a gymerodd ran yn ein cystadleuaeth ffotograffiaeth Chwarae ym Myd Natur – Chwefror 2025*

# Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd yn allweddol wrth lywio'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Arweiniwyd yr ymgysylltu gan y tîm gofal plant a chwarae ac fe'i hystyriwyd y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

**Arolygon ac ymgynghoriadau:** Cynhaliodd yr awdurdod lleol arolygon ac ymgynghoriadau gyda phlant a theuluoedd i gasglu eu barn ar gyfleoedd chwarae presennol ac i nodi bylchau. Mae'r adborth hwn yn helpu i ddeall anghenion gwirioneddol cymunedau lleol.

Defnyddiodd yr awdurdod lleol dempled yr arolwg boddhad chwarae plant a ddosbarthwyd gan Chwarae Cymru. Sicrhaodd hyn fod y data yn gyson ag asesiadau blaenorol fel y gellid cynhyrchu darlun mwy cywir o anghenion chwarae plant a phobl ifanc sy'n byw ym Mlaenau Gwent dros gyfnod o amser.

Mae cwestiynau wedi'u datblygu i fesur profiadau chwarae plant mewn perthynas â'r canlynol:

- Amserol – sut mae plant yn treulio eu 'hamser rhydd'
- Gofodol – sut mae gofod yn cefnogi neu'n cyfyngu ar chwarae plant a mynediad plant at ofod
- Seicolegol – caniatâd i chwarae

Yn ogystal â'r arolwg boddhad chwarae, dosbarthwyd cyfres o arolygon lleol llai gyda graddau amrywiol o lwyddiant.

Nod ein harolwg 'ble mae plant yn chwarae' oedd casglu mwy o wybodaeth am ble mae plant yn chwarae yn eu cymunedau lleol. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod chwarae'n fwy na lle chwarae sefydlog a gwnaeth canfyddiadau'r arolwg ein galluogi i ddod o hyd i'r mannau cudd arbennig hynny ar gyfer chwarae.

Nod yr arolwg 'clybiau a grwpiau' oedd cynorthwyo gyda chasglu mwy o fanylion am ddarpariaeth anghofrestredig – er bod gan yr awdurdod lleol hanes da yn hyn o beth, mae'n amlwg bod clybiau a grwpiau nad ydym yn ymwybodol ohonynt sy'n cyfrannu at ddarparu cyfleoedd digonol ar gyfer chwarae.

Roedd casglu a dadansoddi data o arolygon yn cyflwyno sawl her i'r tîm, gyda lefelau ymateb isel (cwblhaodd 163 ein harolwg boddhad chwarae). Effeithiodd hyn ar yr amserlen ar gyfer casglu data, er gwaethaf llawer iawn o hyrwyddo ac ailddosbarthu'r arolwg sawl gwaith i hyrwyddo ymgysylltiad.

Gellir dod o hyd i ganfyddiadau o'n harolygon chwarae yn yr adran dadansoddi themâu, gan ddechrau ar dudalen 24 o'r adroddiad hwn.

**Grwpiau ffocws:** Trefnwyd grwpiau ffocws gydag ysgolion lleol a chlybiau ar ôl yr ysgol i gyfarfod â grwpiau o blant i drafod cyfleoedd i chwarae ac i gasglu mewnwelediadau manwl am anghenion plant a phobl ifanc. Sicrhaodd grwpiau ffocws fod gennym gynrychiolaeth gan siaradwyr Cymraeg, plant ag anableddau, gofalwyr ifanc, plant sy'n derbyn gofal, plant Sipsiwn/Teithwyr, y gymuned LHDTC+, ceiswyr lloches, grwpiau ethnig lleiafrifol, a phlant sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig.

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025, cymerodd 87 o blant ran mewn grŵp ffocws seiliedig ar weithgareddau, a gyflwynwyd gan y tîm chwarae.

Rhoddwyd trosolwg o'r hyn yr oeddem yn gobeithio ei gyflawni a pham ei bod hi'n bwysig i'r plant eu hunain ddweud eu dweud, a beth fyddai eu hadborth, eu meddyliau a'u sylwadau o gymorth ag ef.

Mewn grwpiau bach, naill ai'n cynrychioli cyngor yr ysgol, arweinwyr chwarae'r ysgol neu blant o grwpiau targedig, gofynnwyd iddynt…

- Pam mae chwarae / treulio amser gyda'ch gilydd yn bwysig?
- Ble maen nhw'n chwarae / beth maen nhw'n ei chwarae pan nad ydyn nhw yn yr ysgol?
- Beth sy'n dda amdanyn nhw?
- Beth sy'n ddrwg amdanyn nhw?
- Beth yw'r rhwystrau?
- Beth allwn ni ei wneud i leihau'r rhwystrau? A phwy ydyw? Plant? Oedolion?
- Beth fyddai eich dymuniad i gefnogi cyfleoedd i chwarae?





Canfyddiadau'r grwpiau ffocws:

1. *Pam mae chwarae / treulio amser gyda'ch gilydd yn bwysig?*
   Mae chwarae'n ddifyr, yn atal diflastod, gwneud/treulio amser gyda ffrindiau, cymryd risg, 'corff iach, meddwl iach', yn eich gwneud chi'n hapus, mae'n gyffrous, yn gwella iselder, yn gallu rhoi cynnig ar bethau newydd, yn eich gwneud yn hapus, yn creu atgofion, yn llosgi egni, yn gyfle i fentro, yn fy herio, yn gwthio ffiniau, awyr iach.

2. *Ble maen nhw'n chwarae / beth maen nhw'n ei chwarae pan nad ydyn nhw yn yr ysgol?*
   Parc, canolfan chwaraeon, cae wrth fy nhŷ, yn nhŷ fy ffrind, gardd, cae chwarae wrth fy nhŷ, i fyny wrth y chwarel, i lawr yr afon, clwb ar ôl yr ysgol, yn y stryd, Asda, McDonald's, parc sglefrio, fy ystafell wely, o amgylch y safle, caban cymunedol, clybiau a grwpiau, cwrt pêl.

3. *Beth sy'n dda amdanyn nhw?*
   Llawer o le agored i redeg o gwmpas, lle da i gael picnic, dim rhieni, bod gyda fy ffrindiau, coed i'w dringo, cael bod yn fi fy hun, wedi gwneud cuddfan – ein lle arbennig ein hunain yn y goedwig, rydyn ni i gyd yn byw yn agos at ein gilydd, yn ddiogel rhag traffig, does dim rhieni i ddweud wrthym ble i chwarae neu beth i'w chwarae, cael ymarfer corff, bod yn yr awyr agored, llawer i'w wneud, mae'n llawer o hwyl, yn gwneud i mi deimlo'n dawel, cael caniatâd i chwarae yno, chwarae gyda fy ffrindiau.

4. *Beth sy'n ddrwg amdanyn nhw?*
   Hen offer rydlyd, llawer o draffig, pobl ddrwg, sbwriel ym mhobman, ddim yn ddiogel, pobl sydd ddim yn deall bod angen i bobl ifanc dreulio amser gyda'i gilydd, plant hŷn yn rhegi, dim byd i'w wneud, baw cŵn, dim llawer o le, plant eraill yn gas, yn cael eich bwlio, ymladd, ysmygu/fepio, iaith anweddus, fandaliaeth, sbwriel, diflasu.

5. *Beth yw'r rhwystrau?*
   Amserol – sut mae plant yn treulio eu 'hamser rhydd'
   Gormod o weithgareddau ar ôl yr ysgol, tasgau, gofalu am blant bach, bob amser yn brysur, gormod i'w wneud, mynd at dŷ mam-gu neu allan i ginio.

   Gofodol – sut mae gofod yn cefnogi neu'n cyfyngu ar chwarae plant a mynediad plant at ofod
   Traffig, tywydd – dim caniatâd i fynd allan os yw'n bwrw glaw, ddim yn teimlo'n ddiogel, yn byw'n eithaf pell o fy ffrindiau, unman i chwarae heblaw am o gwmpas y safle, cyfarpar wedi torri felly allwn ni ddim ei ddefnyddio.

   Seicolegol – caniatâd i chwarae
   Mae fy rhieni'n fy ngwahardd rhag chwarae allan, amser i chwarae, mae Mam bob amser yn dweud na, diwylliant o beidio â chymysgu â'r gymuned y tu allan i'n safle, mae Mam yn dweud fy mod i'n rhy ifanc i chwarae allan, mae oedolion yn trefnu llawer o bethau i mi eu gwneud.

6. *Beth allwn ni ei wneud i leihau'r rhwystrau?*
   Bihafio – peidio â chael eich gwahardd, gwisgo dillad llachar, gwneud amser i chwarae, mynd allan gyda ffrind, gofyn i rieni ymuno, angen lle mwy i chwarae, canolfan gymunedol fwy, cosbi'r bobl sy'n difrodi pethau.

DRAFT

7. *Beth fyddai eich dymuniad i gefnogi cyfleoedd i chwarae?*
   Gallu cael opsiwn i chwarae y tu allan am amser aur (ysgol), mwy o barciau, gwell offer, gwell tywydd 😊 mwy o amser i chwarae, mwy o leoedd i chwarae gyda fy ffrindiau.

Yn dilyn gweithgarwch y grwpiau ffocws, rhoddwyd cyfle i ysgolion a chlybiau ar ôl yr ysgol wneud cais am grant bach i brynu adnoddau i wella a datblygu cyfleoedd ar gyfer chwarae.

**Mapio ac archwilio:** Cyfrannodd plant a theuluoedd at fapio ac archwilio mannau chwarae presennol yn ystod ymweliadau'r tîm chwarae. Helpodd eu mewnbwn i nodi lle mae cyfleoedd chwarae'n dda a pha feysydd sydd angen eu gwella.

**Arsylwadau:** Mae dyddiaduron chwarae, astudiaethau achos ac arsylwadau yn ystod sesiynau chwarae hefyd wedi rhoi cipolwg ar ddiddordebau ac anghenion chwarae plant a phobl ifanc.

**Wyneb yn wyneb:** Defnyddiodd y tîm chwarae'r cyfle hefyd, yn ystod sesiynau chwarae mynediad agored yn ystod gwyliau'r ysgol, i ymgysylltu â phlant a theuluoedd. Ymgynghorwyd â 134 o blant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr eraill.

**Adborth parhaus:** Mae ymgysylltu parhaus â phlant a theuluoedd yn sicrhau bod yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion sy'n newid.

### Sut mae gwybodaeth wedi cael ei defnyddio i asesu pob mater o fewn y dadansoddiad o'r themâu

Mae data a gesglir yn llywio proffiliau chwarae cymunedol ein hawdurdod lleol ar gyfer pob un o'r 14 ward. Lle mae data cyfyngedig ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn canolbwyntio ymgysylltu i sicrhau bod darlun cywir ar gyfer chwarae yn parhau i gael ei sefydlu a'i ddatblygu.

Mater A: Poblogaeth – Mae proffil cymunedol o'r boblogaeth 0–18 oed yn cael ei lunio i helpu'r awdurdod lleol i nodi ardaloedd lle mae'r angen mwyaf am gyfleoedd i chwarae. Mae'r proffil hwn hefyd yn sail i ymgynghori ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Mae'r data'n cefnogi dyluniad rhaglenni ymgynghori yn y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu ein rhyngweithiadau â phlant a phobl ifanc ac yn annog eu hymgysylltiad wrth ddatblygu cyfleoedd i chwarae.

Mater B: Diwallu anghenion amrywiol – Mae'r data'n caniatáu asesu anghenion penodol gwahanol grwpiau oedran, cefndiroedd diwylliannol a galluoedd. Lle mae data'n brin, gall yr awdurdod lleol barhau i adeiladu ar dystiolaeth bresennol i sicrhau bod anghenion chwarae a diddordebau grwpiau penodol o blant yn cael eu hystyried. Trwy ganfyddiadau ymgynghoriadau, gall yr awdurdod lleol ddeall anghenion a dewisiadau unigryw gwahanol grwpiau yn well, gan arwain at gyfleoedd mwy effeithiol a chynhwysol i chwarae ddiwallu anghenion amrywiol y gymuned.

Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae – Mae pob ardal a ddefnyddir ar gyfer chwarae plant wedi'i mapio i roi trosolwg o bob ardal ym Mlaenau Gwent ar lefel ward. Gellir ychwanegu manylion penodol am fannau chwarae anffurfiol at broffiliau chwarae trwy wybodaeth a gesglir yn ystod y broses asesu. Mae'r wybodaeth ddemograffig a phroffiliau cymunedol yn llywio'r gwaith o gynllunio a datblygu mannau chwarae newydd. Maent yn helpu i flaenoriaethu ardaloedd i'w datblygu a sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn y dyfodol yn cyd-fynd ag anghenion y gymuned.

Mater Ch: Darpariaeth dan oruchwyliaeth – Mae'r wybodaeth yn caniatáu gwerthuso'r ddarpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth bresennol, gan werthuso beth sydd ar gael, ei fath, a sut mae hygyrch ydyw i gymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys asesu ansawdd, hygyrchedd a defnydd y ddarpariaeth i sicrhau ei bod yn bodloni safonau a disgwyliadau'r gymuned yn ogystal â darparu ateb i ddiffygion. Mae'r wybodaeth a gasglwyd ar ddarpariaeth a chyfleoedd ar gyfer chwarae wedi tynnu sylw at rai bylchau mewn gwybodaeth am sefydliadau/busnesau/grwpiau ehangach sy'n darparu cyfleoedd hamdden. Cydnabyddir hefyd y gallai fod diffyg ymwybyddiaeth o sut maen nhw'n cefnogi cyfleoedd ar gyfer chwarae a'u rôl wrth gefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae ym Mlaenau Gwent.

Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae – Mae'r wybodaeth yn helpu i bennu'r ffioedd cyfredol am ddarpariaeth a'r effeithiau a'r heriau y gallai hyn eu cael ar deuluoedd o ran cael mynediad ati. Yn ogystal, mae'n tynnu sylw at anghydraddoldebau o ran mynediad at gyfleoedd i chwarae, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.

Mater Dd: Mynediad i le/darpariaeth – Mae canfyddiadau wedi galluogi'r awdurdod lleol i werthuso gofod ffisegol, diogelwch a hygyrchedd, gan helpu i nodi ardaloedd heb ddigon o gyfleoedd a blaenoriaethu buddsoddiad.

Mater E: Sicrhau a datbygu'r gweithlu chwarae – Mae'r arolwg datblygu'r gweithlu blynyddol a gynhelir gan Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yr awdurdod lleol yn darparu lefelau cymwysterau ac anghenion hyfforddi ar gyfer y sector. Mae hyn yn darparu tystiolaeth a data sy'n llywio camau gweithredu ar gyfer digonolrwydd cyfleoedd chwarae wrth hefyd lywio rhaglen hyfforddi flynyddol Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ar gyfer cymwysterau a datblygiad proffesiynol i sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae.

Mater F: Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys – Caiff gwybodaeth ei hasesu i amlygu mentrau lleol a bylchau mewn cyfathrebu, cynyddu darpariaeth gwasanaethau i'r eithaf a lleihau dyblygu, a gwerthuso sut y gallai fod angen i ni addasu blaenoriaethau i hyrwyddo ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol. Mae'r diffyg ymatebion i'n harolwg boddhad chwarae wedi ein helpu i benderfynu'r angen i gynnal rhywfaint o ymgynghori pellach ar lawr gwlad ar sail ward gyda phlant a phobl ifanc a bydd hyn yn cael ei ddatblygu fel cam gweithredu i gefnogi asesiadau yn y dyfodol.

Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol – Defnyddiwyd yr wybodaeth i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar draws pob agenda polisi i bennu eu heffaith bosibl ar gyfleoedd plant i chwarae, gan alluogi darnau o waith â mwy o ffocws lle mae angen datblygu chwarae fel thema drawsbynciol. Mae casglu data a gwybodaeth wedi rhoi hwb newydd i ymgysylltu â chydweithwyr a phartneriaid sy'n hyrwyddo gwasanaethau, gan annog cydweithio i sicrhau bod gwerth chwarae yn cael ei gydnabod a'i gynnwys mewn cynlluniau ac ar draws meysydd polisi.

Bydd yr awdurdod lleol a'i bartneriaid yn defnyddio'r data i lywio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol, gan sicrhau bod bylchau mewn cyfleoedd i chwarae yn cael blaenoriaeth.

## Sut y mae wedi cael ei defnyddio i lywio'r cynllun gweithredu chwarae

Mae'r mewnwelediadau a'r adborth a gasglwyd gan blant a theuluoedd wedi bod yn allweddol wrth lunio ein cynlluniau gweithredu chwarae. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u llunio i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd mewn darpariaeth chwarae a gwella cyfleoedd ar gyfer chwarae, gan sicrhau eu bod yn ymatebol i anghenion penodol cymunedau lleol.

Ymgysylltu â'r gymuned: Drwy grwpiau ffocws, arolygon ac ymgynghoriadau, rydym wedi casglu gwybodaeth werthfawr gan grwpiau amrywiol, gan gynnwys plant o wahanol oedrannau, cefndiroedd ac amgylchiadau. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi rhoi cipolwg defnyddiol wrth gydnabod bod angen i ni barhau i wneud mwy o waith i gasglu barn plant a phobl ifanc wrth ddeall anghenion a dewisiadau chwarae yn ein cymuned.

Bylchau a nodwyd: Mae'r asesiad wedi tynnu sylw at sawl maes lle mae darpariaeth chwarae yn brin neu lle gellid ei gwella. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am fwy o fannau chwarae cynhwysol, mynediad gwell i fannau chwarae, a mesurau diogelwch gwell.

Atebion wedi'u teilwra: Mae ein cynlluniau gweithredu chwarae wedi'u teilwra i fynd i'r afael â'r bylchau hyn, gyda chamau penodol wedi'u hanelu at wella amgylcheddau chwarae, cynyddu hygyrchedd, a meithrin cyfranogiad cymunedol.

# Manteisio i'r eithaf ar adnoddau

**Sut mae'r awdurdod lleol a phartneriaid yn defnyddio cyllidebau presennol i gefnogi cyfleoedd i chwarae**

Mae cyfrifoldeb statudol ar yr awdurdod lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant lleol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

**Gofal plant a chwarae:**
Mae'r tîm gofal plant a chwarae yn cefnogi'r awdurdod lleol i gyflawni'r cyfrifoldebau statudol a gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o 'wlad lle mae cyfle i chwarae'.

Mae'r tîm a'r gwasanaethau'n cael eu hariannu drwy gyfuniad o'r Grant Cynnal Refeniw a grantiau gofal plant a chwarae a'r Rhaglen Wyliau Gwaith Chwarae (rhan o'r Grant Plant a Chymunedau).

Ar hyn o bryd, mae elfen chwarae'r tîm yn cynnwys y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac un gweithiwr chwarae rhan-amser. Mae swydd cydgysylltydd chwarae ar fin cael ei recriwtio. Cefnogir y tîm ymhellach gan wirfoddolwyr chwarae cymunedol sy'n cefnogi cyflwyno darpariaeth yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol. Defnyddir elfen o'r cyllid i gynnal gwiriadau recriwtio ac i ddarparu hyfforddiant a gwisg i'r gwirfoddolwyr chwarae.

Mae darpariaeth yn ystod y tymor yn cynnig sesiynau Gwersylloedd Gwyllt ar ôl yr ysgol gyda staff i blant hŷn sydd â gwendidau a nodwyd. Mae Gwersylloedd Gwyllt yn cynnig cyfleoedd i chwarae mewn amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae'r tîm yn cefnogi:

- Creu a diogelu lle ac amser ar gyfer chwarae
- Darparu a sicrhau bod adnoddau ar gael i gefnogi ac ysgogi chwarae
- Hwyluso chwarae'n weithredol
- Modelu agweddau cadarnhaol at chwarae
- Datblygu ymagwedd chwareus a chreadigol

Mae darpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol yn cael ei hariannu drwy elfen y Rhaglen Wyliau Gwaith Chwarae yn y Grant Plant a Chymunedau, gan alluogi'r tîm i gyflwyno rhaglen o ddarpariaeth chwarae mynediad agored mewn parciau / mannau agored a lleoliadau cymunedol ledled Blaenau Gwent. Cynigir sesiynau ar draws pob gwyliau ysgol (ac eithrio'r Nadolig), gan gyflwyno ar gyfartaledd chwech i saith sesiwn yr wythnos ar draws o leiaf chwe lleoliad, dan arweiniad gweithiwr chwarae'r awdurdod lleol a gwirfoddolwyr chwarae cymunedol. Mae'r sesiynau i gyd yn cynnig opsiynau bwyd a diod iach i gefnogi mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau.

Mae'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cydlynu dathliadau'r Diwrnod Chwarae Cenedlaethol a digwyddiadau Nadolig blynyddol ar gyfer plant, pobl ifanc agored i niwed a'u teuluoedd.

**Dechrau'n Deg:**
Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn rhan o'r Gwasanaethau Plant ac yn ategu'r agenda chwarae'n llawn. Mae cynlluniau a gwasanaethau cyflawni Dechrau'n Deg yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddarparu cyfleoedd chwarae cyfoethog trwy bob un o'r pedair elfen graidd: gofal plant o ansawdd uchel am ddim, gwasanaeth ymwelwyr iechyd gwell, rhianta a lleferydd, ac iaith a chyfathrebu.

Cefnogir lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg gan athro ymgynghorol a swyddog sicrhau ansawdd Dechrau'n Deg, sy'n cynghori ac yn cynnig arweiniad i sicrhau bod cyfleoedd allweddol i blant chwarae'n annibynnol ac ochr yn ochr â'u cyfoedion yn cael eu darparu.

Mae'r tîm yn cynnig cyfleoedd sy'n hyrwyddo gwerth chwarae o adeg geni yn weithredol, gan gynnwys rhaglenni magu plant a datblygu sgiliau, cymorth cynenedigol, tylino babanod, Elklan – Dewch i ni siarad â'ch babi, chwarae a datblygiad, Camau Bach, perthnasoedd rhwng rhieni, bwyta'n iach, coginio a diddyfnu ar gyllideb, a defnyddio'r pecyn cymorth profiadau niweidiol yn ystod plentyndod i archwilio'r profiadau hyn.

Mae Dechrau'n Deg hefyd yn cefnogi nifer o grwpiau eraill, fel grŵp cerddoriaeth greadigol i dadau sy'n anelu at hyrwyddo iechyd a lles da i dadau a'u plant trwy gerddoriaeth a gweithgareddau creadigol. Mae grwpiau cerdded a mentrau rhwydwaith rhieni yn darparu cyfleoedd i rieni a phlant gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden, gan hyrwyddo iechyd meddwl a chynhwysiant cymdeithasol. Mae rhaglen Fforwyr Bach Dechrau'n Deg yn cefnogi plant ag anghenion datblygiadol trwy strategaethau a gweithgareddau wedi'u targedu, gan hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden.

Cynigir grwpiau rhieni a phlant bach yn wythnosol ym mhob un o hybiau Dechrau'n Deg – mae'r rhain wedi dod yn rhai dan arweiniad rhieni yn ddiweddar, lle mae rhieni'n dylunio/cynllunio a chyflwyno sesiynau eu hunain. Darparodd Dechrau'n Deg hyfforddiant ar ddiogelu, bwyta'n iach a diogelwch rhag tân i'w galluogi i gael mynediad i'r lle a chyflwyno sesiynau.

**Teuluoedd yn Gyntaf:**
Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn rhan o'r Gwasanaethau Plant ac mae wedi'i lleoli yn y Ganolfan Integredig i Blant. Mae hyn yn golygu bod y timau wedi'u cydleoli a bod perthynas waith agos, gan gynnwys systemau rheoli integredig. Mae tîm Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i gynrychioli o fewn Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ac mae'r Rheolwr Gofal Plant a Chwarae yn eistedd ar grŵp llywio Teuluoedd yn Gyntaf; mae hyn yn helpu i sicrhau ffocws parhaus ar chwarae ym Mlaenau Gwent.

Mae elfen gofalwyr ifanc Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd â rôl ofalu ar gyfer eu rhieni a'u brodyr a chwiorydd. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyfleoedd hamdden am ddim i blant a phobl ifanc o fewn y fwrdeistref ac yn eu cefnogi i gael mynediad at weithgareddau chwarae a hamdden.

Mae elfen anabledd y rhaglen yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan anabledd a'u teuluoedd. Caiff anghenion plant anabl mewn perthynas â chwarae eu nodi ar adeg yr atgyfeiriad. Mae'r tîm yn cynnig clwb ieuenctid integredig sy'n cyfarfod bob wythnos ac sydd â gwybodaeth eang a chysylltiadau â gwasanaethau lleol a darparwyr cyfleoedd chwarae a hamdden i blant anabl.

**Bwyd a Hwyl:**
Cyflwynwyd y rhaglen Bwyd a Hwyl ym Mlaenau Gwent yn 2017, gan gynnwys dwy ysgol i ddechrau: Ysgol Gynradd Willowtown a Chymuned Ddysgu Abertyleri (Ysgol

Roseheyworth). Cymerodd hyd at 80 o blant ran yn y cynllun, a barhaodd am 12 diwrnod yn ystod gwyliau'r haf. Mae'r fenter yn cael ei hariannu trwy grant gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac yn cael ei chydlynu'n lleol gan swyddog dynodedig o fewn yr awdurdod lleol. Mae'r cydlynydd hwn yn gyfrifol am ymgysylltu ag ysgolion, goruchwylio gweithredu'r prosiect, a sicrhau cynllunio a chyflwyno effeithiol ar draws yr holl safleoedd sy'n cymryd rhan.

Eleni, mae'r rhaglen wedi ehangu i gynnwys chwe ysgol: Cymuned Ddysgu Abertyleri, Ysgol Gatholig yr Holl Saint, Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr, Ysgol Gynradd Glanhywi, Ysgol Arbennig Pen y Cwm ac Ysgol Gynradd Willowtown. Bydd cyfranogwyr yn derbyn brecwast, cinio a byrbrydau maethlon bob dydd, ochr yn ochr â rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau a gyflwynir mewn partneriaeth â Thîm Datblygu Chwaraeon Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin. Mae ehangu'r rhaglen i chwe ysgol a darparu 420 o leoedd yn 2025 yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth uwch o werth y cynllun i blant, teuluoedd a chymunedau.

**Tîm adfywio:**
Fel rhan o'r tîm adfywio, mae Swyddog Datblygu Busnesau Canol Trefi yr awdurdod lleol yn cynllunio digwyddiadau yn y prif ganol trefi ledled Blaenau Gwent. Mae cyfleoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cynnwys Dinomania a diwrnodau uwcharwyr a oedd yn darparu profiadau a chyfleoedd i chwarae. Darperir cyfran sylweddol o'r cyllid trwy Lywodraeth y DU (y Gronfa Ffyniant Gyffredin); derbynnir cyfraniadau hefyd gan gynghorau tref a chymuned lleol a sefydliadau cymunedol. Cyn derbyn cyllid gan Lywodraeth y DU, mae'r awdurdod lleol wedi cyfrannu at gyflwyno digwyddiadau tref yn flaenorol. O bryd i'w gilydd, mae aelodau etholedig wedi cefnogi digwyddiadau trwy ddyraniadau o'u cronfeydd ardrethi hanner ceiniog.

**Gwasanaethau cymunedol:**
Defnyddir cyllidebau presennol i gefnogi gwaith cynnal a chadw mewn mannau chwarae ledled Blaenau Gwent, gydag arweinydd tîm yn cwmpasu'r Gwasanaethau Stryd – cynnal a chadw tiroedd, gwasanaethau profedigaeth a glanhau strydoedd; arweinydd tîm cynorthwyol yn cwmpasu cynnal a chadw tiroedd (gan gynnwys mannau chwarae) a gwasanaethau profedigaeth; ac un aelod staff amser llawn wedi'i neilltuo i fannau chwarae. Mae'r tîm wedi llwyddo i gael mynediad at gyllid trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac adran 106 i adnewyddu/adeiladu mannau chwarae yn ogystal â chyllid cyfalaf untro gan yr awdurdod lleol i wella arwynebau diogelwch ar draws mannau chwarae Blaenau Gwent.

**Cynghorau tref a chymuned:**
Gyda thri chyngor tref a chymuned ledled Blaenau Gwent, cefnogir cyfleoedd i chwarae trwy ddyrannu cyllid i wella mannau chwarae, creu darpariaeth ychwanegol, cefnogi digwyddiadau cymunedol, neu ddarparu mynediad i fannau cymunedol. Trwy'r cynllun 'prynu diwrnod i chwarae', ariannodd Cyngor Tref Bryn-mawr dîm chwarae Blaenau Gwent i ddarparu sesiynau chwarae mynediad agored ychwanegol yn ystod gwyliau haf yr ysgol 2024.

**Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin:**
Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan y gymuned ac sy'n canolbwyntio ar wella bywydau unigolion trwy ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau a

chyfleusterau. Mae'r tîm yn derbyn cyllid craidd blynyddol trwy Chwaraeon Cymru, sy'n cwmpasu tri swyddog amser llawn, gyda swydd arall yn cael ei hariannu gan wahanol ffynonellau ariannu a chostau prosiect. Mae'r tîm ehangach yn cynnwys deg hyfforddwr chwaraeon a gwirfoddolwr wrth gefn (dim oriau).

Mae Tîm Datblygu Chwaraeon Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn cydnabod ei rôl fel partner strategol wrth gefnogi amcanion y cyngor a gweledigaeth Chwaraeon Cymru. Mae'r tîm yn manteisio ar ei rwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol helaeth i ychwanegu gwerth at y gymuned. Mae'r gefnogaeth hon yn ymestyn i nodau ehangach yr awdurdod lleol, gan gyfrannu at fentrau a chanlyniadau economaidd a chymdeithasol.

Mae chwarae at ddibenion hamdden yn gonglfaen i ddull y Tîm Datblygu Chwaraeon. Mae pob sesiwn ymarferol wedi'i hadeiladu o amgylch yr egwyddor hon, gyda sesiynau'n cael eu hwyluso gan weithlu cymwys a'u cyflwyno ar draws llu o leoliadau. Mae'r sesiynau hyn wedi'u teilwra i ddiwallu diddordebau ac anghenion cyfranogwyr, gan ganolbwyntio ar chwaraeon a gemau sy'n cyd-fynd â dewisiadau unigol.

**Gwasanaeth Ieuenctid:**
Mae clybiau ieuenctid mynediad agored ar gael i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed. Er bod y rhan fwyaf o'r darpariaethau'n denu pobl ifanc rhwng 11 a 18 oed yn bennaf, mae ganddyn nhw hefyd ddarpariaeth bwrpasol sydd wedi'i hanelu'n benodol at y rhai rhwng 16 a 25 oed. Mae clybiau ieuenctid mynediad agored yn gweithredu ar draws tri phrif gwm Blaenau Gwent.

Yn ogystal â dau adeilad canolfan ieuenctid a gedwir yng Nghwm ac Abertyleri, defnyddiwyd cyllid i ehangu eu cyrhaeddiad trwy ddarparu darpariaeth ychwanegol mewn amrywiol leoliadau cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys: Abertyleri, Cwm, Pafiliwn Stockton, Kidz R Us, Rasa, Newtown, Tabor (Bryn-mawr), Dydd Mercher Lles, a darpariaeth Parth Dysgu Blaenau Gwent 16+.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu rhaglen haf gynhwysfawr sy'n cwmpasu chwe wythnos gwyliau'r ysgol, gan ddarparu gweithgareddau wrth gadw darpariaethau clwb ieuenctid gyda'r nos ar agor drwy gydol y cyfnod. Mae hyn yn sicrhau bod gan bobl ifanc le diogel i gyfarfod a chael mynediad at weithwyr ieuenctid.

## Beth sydd wedi newid ers yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae diwethaf o ran adnoddau

Mae cyllid cyson drwy'r Rhaglen Wyliau Gwaith Chwarae gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn groesawgar iawn. Gyda'r cyllid hwn bellach yn dod o dan y Grant Plant a Chymunedau, mae hyn wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r awdurdod lleol ddyrannu cyllid pellach i chwarae, sydd wedi helpu i sicrhau mwy o gyfleoedd i chwarae ar draws yr awdurdod lleol ac wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r agenda chwarae. Mae cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru i gefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae wedi'i werthfawrogi'n fawr ac wedi galluogi cymryd camau gweithredu sydd â goblygiadau cost. Nodir rhagor o fanylion am raglenni Llywodraeth Cymru yn yr adran nesaf isod.

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU wedi galluogi'r awdurdod lleol i gael mynediad at gyllid i gefnogi a datblygu cyfleoedd ar gyfer chwarae. Drwy'r llwybr ariannu hwn, mae'r awdurdod lleol wedi gallu gwella, adnewyddu a chreu mannau chwarae sefydlog a chefnogi digwyddiadau ym mhob un o'r canol trefi.

Mae grwpiau 'cyfeillion' wedi llwyddo i gael mynediad at gyllid o wahanol lwybrau, gan gynnwys y Loteri Genedlaethol, Llais y Gymuned ac Arian i Bawb, grantiau'r

Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post, grantiau ffermydd solar a'r Gymdeithas Tennis Lawnt. Mae hyn wedi galluogi cyflwyno offer newydd i wella offer presennol neu i adnewyddu ardaloedd a ddefnyddir i gefnogi chwarae plant.

Symudwyd swydd Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'r awdurdod lleol o fod yn swydd cyfnod penodol i swydd barhaol ym mis Ebrill 2022, gan ddangos ymrwymiad gan yr awdurdod lleol i barhau i gefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae.

Mae dibyniaeth o hyd ar wirfoddolwyr chwarae cymunedol i gefnogi cyflwyno chwarae a digwyddiadau mynediad agored ac mae'r tîm yn parhau i ddatblygu ei dîm o wirfoddolwyr chwarae, gyda 22 ar y gronfa ddata ar hyn o bryd. Mae argaeledd gwirfoddolwyr i gefnogi yn ystod gwyliau ysgol yn amrywio, sy'n gwneud cynllunio a chyflwyno'r ddarpariaeth yn anodd. Mae dibyniaeth hefyd ar y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn clirio ymrwymiadau gwaith eraill i gyflenwi mewn sesiynau os bydd salwch / gwyliau blynyddol neu os nad yw gwirfoddolwyr yn cyrraedd. O ganlyniad, mae hyn yn cael effaith sylweddol ar gapasiti'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

### Sut mae rhaglenni Llywodraeth Cymru wedi cael eu defnyddio'n lleol

Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae:
Mae cyllid refeniw'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae wedi galluogi'r awdurdod lleol i gefnogi bylchau yn y ddarpariaeth chwarae drwy recriwtio gweithwyr chwarae. Llwyddodd yr awdurdod lleol i sefydlu dwy swydd ran-amser i gefnogi'r ddarpariaeth yn ystod y gwyliau ysgol. Sefydlwyd y swyddi am 28 awr am ddeg wythnos y flwyddyn i gwmpasu cyfnodau'r gwyliau ysgol. Yn 2024, cynhaliwyd 66 o sesiynau chwarae mynediad agored yn ystod cyfnodau'r gwyliau ysgol, gan ymgysylltu â 2,700 o blant a phobl ifanc.

Yn ogystal, mae cyllid wedi galluogi'r tîm i gydweithio â'r tîm Dewisiadau Cymunedol i ddarparu byrbrydau iach ym mhob darpariaeth. Mae hyn wedi cael croeso mawr gan blant a theuluoedd, gyda rhai plant yn dod i'r sesiynau am fyrbryd yn unig. Trwy'r Bartneriaeth Gwydnwch Bwyd, daeth partneriaid a darparwyr gweithgareddau sy'n cynnig bwyd/byrbrydau dros wyliau haf yr ysgol at ei gilydd a mapio'r holl ddarpariaeth. Hyrwyddwyd hyn trwy gyfryngau cymdeithasol a bydd yn cael ei efelychu yn y dyfodol.

Sgwrs a glywyd rhwng dwy ferch tua 10 oed (Pasg 2025):

*Mae'r bobl fwyd yma!*
*Gallwn ni gael brechdan cyn i ni chwarae pêl-rwyd!*

DRAFT

Defnyddir elfen o’r cyllid hefyd i ariannu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, hyfforddiant a gwisg ar gyfer ein tîm o wirfoddolwyr chwarae cymunedol.

Grantiau Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan:
Mae’r Grantiau Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan ychwanegol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu derbyn yn ddiolchgar ym Mlaenau Gwent ac maent wedi helpu i fynd i’r afael â blaenoriaethau ein cynlluniau gweithredu chwarae ar gyfer 2022–2025, gan gynnwys:

- Cefnogi adnewyddu mannau chwarae ag offer sefydlog
- Gweithio gyda’r Rheolwr Canol Trefi i gefnogi digwyddiadau canol y dref dros wyliau haf yr ysgol
- Dod â chydweithwyr a phartneriaid ynghyd i ddathlu Diwrnod Chwarae Cenedlaethol
- Hyrwyddo cymunedau lle mae cyfle i chwarae





# Monitro

**Pwy sydd â'r cyfrifoldeb strategol arweiniol dros chwarae yn yr awdurdod lleol**

Y Cyfarwyddwr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd sy'n arwain ar yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, gyda chefnogaeth yr Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc. Ers i'r ddyletswydd ddechrau, mae'r cyfrifoldeb am y broses asesu a'r gwaith monitro dilynol o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae wedi bod yn nwylo'r tîm gofal plant a chwarae trwy'r Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Gofal Plant a'r Rheolwr Chwarae a'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

**Sut mae'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cysylltu â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Lleol**

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Partneriaeth Llesiant Leol Blaenau Gwent

Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae

Mae Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan blant gyfleoedd digonol i chwarae, ac mae'r asesiad yn cysylltu ag amrywiol fframweithiau a byrddau strategol.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus: Partneriaeth Llesiant Leol Blaenau Gwent yw ein grŵp cyflawni lleol anstatudol o fewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent. Mae asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn darparu data gwerthfawr a ddefnyddir i lywio prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Drwy ddeall y bylchau a'r anghenion yn y ddarpariaeth chwarae, gellir blaenoriaethu camau gweithredu sy'n gwella cyfleoedd chwarae, gan gyfrannu at nodau llesiant ehangach.



Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol: Mae Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'r awdurdod lleol yn tynnu sylw at bwysigrwydd chwarae wrth hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol ymhlith plant ac yn helpu i ddatblygu gwasanaethau integredig sy'n cefnogi iechyd plant trwy gyfleoedd gwell i chwarae.

Cynlluniau Datblygu Lleol: Mae Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn darparu tystiolaeth o'r angen am fannau chwarae, ac mae hyn yn cael ei ymgorffori mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac

asesiadau mannau agored i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnwys cyfleusterau chwarae digonol a bod yr awdurdod lleol yn cydnabod mannau lle mae plant yn chwarae.

Mae'r asesiadau hyn yn ymdrech gydweithredol sy'n cynnwys amrywiol randdeiliaid i sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn cael eu hystyried mewn strategaethau cynllunio a datblygu ehangach. Mae'r dull integredig hwn yn helpu i greu amgylchedd lle mae mwy o gyfleoedd i blant chwarae.

### Sut mae'r cynllun gweithredu chwarae yn cael ei fonitro:

Ffurfiodd yr awdurdod lleol is-grŵp o Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae – y Grŵp Cefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – i annog cynrychiolaeth gan bob partner wrth ddod â'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn at ei gilydd.

Allbynnau'r Grŵp Cefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae:

- Bydd yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn llywio/nodi camau gweithredu ar gyfer sicrhau digon o gyfleoedd chwarae o fewn yr awdurdod lleol.
- Darparu gwybodaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cael ei integreiddio i'r gwaith o gynllunio, gweithredu ac adolygu cynlluniau strategol.
- Cyhoeddir crynodeb gweithredol o adroddiad Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae: Cyflwr Chwarae ar wefan yr awdurdod lleol, i hysbysu'r cyhoedd ynghylch sut y bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau digon o gyfleoedd chwarae.

Mae'r grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ystod o feysydd gwasanaeth mewnol a phartneriaid allanol, wedi ymrwymo i sicrhau bod digon o gyfleoedd i chwarae ar gael ledled Blaenau Gwent a byddant yn bwrw ymlaen â themâu sy'n gysylltiedig â chwarae ar draws yr awdurdod lleol fel y cytunwyd yn y cynlluniau gweithredu chwarae blynyddol.

Mae'r grŵp yn rhoi adborth ar gynnydd/heriau i Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae bob chwarter, trwy'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

### Aelodaeth

Anfonwyd gwahoddiadau i ofyn am gynrychiolaeth o adrannau / meysydd polisi'r awdurdod lleol:

- Gwasanaethau Plant – Rheolwr Gwasanaeth, Rheolwr Gofal Plant a Chwarae, Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, y tîm plant sy'n derbyn gofal, y tîm anabledd, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf
- Gwasanaethau Cymunedol – Gwasanaethau Cymdogaeth
- Cynllunio – Rheolwr Tîm Cynlluniau Datblygu, Cynorthwyydd Cynllunio
- Adfywio – Swyddog Datblygu Busnesau Canol Trefi, Swyddog Diogelwch Traffig, Rheolwr Tîm yr Amgylchedd Naturiol, Rheolwr y Tîm Amgylchedd Adeiledig
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Tai ac Iechyd yr Amgylchedd – Swyddog Cymorth Tai (Sipsiwn a Theithwyr)
- Clybiau Plant Cymru
- Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin
- Cymdeithasau tai lleol – Tai Calon, Linc Cymru, Cartrefi Melin
- Barnardo's
- Sparkle

**Sut y caiff ei hwyluso / ei gylch gorchwyl**
Caiff y grŵp ei hwyluso gan y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob deufis yn ystod y broses asesu ac wedi hynny bob chwarter i weithredu, monitro ac adolygu blaenoriaethau'r cynllun gweithredu chwarae.

Cytunodd y Grŵp Cefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar gylch gorchwyl gan ddefnyddio canllawiau statudol a phecyn cymorth Llywodraeth Cymru.

**Cryfderau a gwendidau'r grŵp**
Mae'r grŵp yn dwyn ynghyd gyfoeth o arbenigedd ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae a sut mae unigolion mewnol, rolau adrannau a phartneriaid yn dylanwadu ac yn effeithio ar ddarparu cyfleoedd i blant chwarae.

Mae'r grŵp hwn yn hanfodol oherwydd cwmpas a natur drawsbynciol chwarae ar draws yr awdurdod ac mae'n golygu i bob pwrpas bod eiriolwyr chwarae enwebedig wedi'u sefydlu mewn cyfarwyddiaethau ac adrannau perthnasol. Bydd y grŵp yn parhau i adeiladu momentwm, gyda bylchau mewn cynrychiolaeth o feysydd addysg ac iechyd wedi'u nodi a fydd yn cael eu llenwi yn dilyn yr asesiad hwn.

# Casgliad

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd effeithlon ac effeithiol o ansawdd uchel ar gyfer gweithgareddau chwarae, diwylliannol, hamdden a chwaraeon i bob plentyn a pherson ifanc.

Byddwn yn sicrhau bod yr awdurdod lleol a'i bartneriaid yn parhau i adeiladu ar y sylfeini sydd eisoes yn eu lle. Drwy gydweithio, ein nod yw datblygu, cynllunio a chydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol ledled Blaenau Gwent yn effeithiol.

**Negeseuon allweddol ar y canlyniadau a phwyntiau allweddol o'r asesiad:**

- Mae plant yn fwyfwy'n dod o hyd i leoedd i chwarae – efallai nad yw'r rhain o reidrwydd yn fannau chwarae a nodwyd yn ffurfiol. Mae angen diogelu'r mannau hyn lle bo'n ymarferol.
- Yn aml, mannau chwarae yw'r lle i fynd iddynt wrth ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd ynglŷn â chyfleoedd i chwarae. Y prif faes o anfodlonrwydd ymhlith plant a theuluoedd yw cyflwr mannau chwarae ledled Blaenau Gwent o hyd. Mae angen i'r awdurdod lleol ddiweddaru'r strategaeth chwarae ar gyfer mannau chwarae ag offer sefydlog i gefnogi a blaenoriaethu adnewyddu/datblygu a chynnal a chadw mannau chwarae.
- Roedd plant iau yn tueddu i ffafrio mannau chwarae ag offer sefydlog, gyda phlant hŷn (10 oed a hŷn) yn dewis canolfannau hamdden, mannau cymunedol, meysydd chwarae, siopau lleol ac ardaloedd coedwig/coediog. Mae plant a phobl ifanc eisiau mannau sy'n agos at adref, yn ddiddorol ac yn amrywiol, ac yn cynnwys natur. Maent

am deimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael eu croesawu yn y mannau hynny a bod y lle yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal.

- Mae'r broses asesu yn sefydlu llinell sylfaen o ddarpariaeth chwarae sydd wedi ehangu ers ei dechrau yn 2013.
- Mae'r asesiad yn tynnu sylw at ostyngiad yn y ddarpariaeth o glybiau ar ôl yr ysgol a chlybiau gwyliau – fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod galw heb ei fodloni am y gwasanaethau hyn ar hyn o bryd. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro.
- Mae diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ddigonol, neu drafnidiaeth â chymhorthdal, i gefnogi hygyrchedd cyfleoedd i chwarae.
- Drwy'r broses asesu, mae wedi dod yn amlwg bod angen ymgysylltu ymhellach â rhieni/gofalwyr ynghylch pwysigrwydd chwarae ac i gymunedau werthfawrogi a buddsoddi mewn plant a phobl ifanc.
- Nododd yr asesiad fod angen i wybodaeth am gyfleoedd i chwarae fod yn gliriach, er mwyn cefnogi plant a theuluoedd i wybod beth sydd ar gael yn eu cymunedau lleol. Byddai hyn yn helpu i nodi bylchau mewn gwybodaeth, darpariaeth, y gwasanaethau a gyflenwir a gweithrediad polisïau.
- Ymwybyddiaeth ac eiriolaeth: Bydd y Grŵp Cefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cyfrannu at gyfleoedd partneriaeth a gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol ac at sicrhau cydweithio ar draws meysydd polisi i wella cyfleoedd ar gyfer chwarae.
- Gwella mannau chwarae: Gyda rhesymoleg glir a strategaeth chwarae ar gyfer mannau chwarae ag offer sefydlog, bydd yr awdurdod lleol yn adnewyddu, gwella a chreu mannau chwarae hygyrch gan ddefnyddio cyllid a ddyrannwyd ar gyfer mannau chwarae ac yn ceisio cyfleoedd buddsoddi pellach ar gyfer gwaith pellach i'w wneud.
- Cefnogi ymgysylltu cymunedol: Treialu mentrau fel cau ffyrdd dros dro ar gyfer chwarae ar y stryd a hyrwyddo cymunedau lle mae cyfle i chwarae.
- Gwella amgylcheddau chwarae ysgolion: Annog ysgolion i ddarparu amgylcheddau chwarae cyfoethog yn ystod egwyliau a thu allan i oriau addysgu drwy greu ysgolion lle mae cyfle i chwarae.
- Integreiddio polisïau: Sicrhau bod chwarae'n cael ei ystyried mewn cynlluniau datblygu lleol, polisïau iechyd a diogelwch, a mentrau iechyd y cyhoedd.
- Mae cymunedau lleol yn croesawu ac yn darparu adborth cadarnhaol ar gyfer mentrau a digwyddiadau cymunedol lleol sy'n cefnogi cyfleoedd i chwarae.

## Camau gweithredu arfaethedig ar gyfer y ffordd ymlaen

Nod ein camau gweithredu arfaethedig yw creu amgylchedd cynhwysfawr a chefnogol ar gyfer chwarae plant, gan fynd i'r afael â mannau ffisegol ac ymgysylltu cymunedol, wrth integreiddio chwarae i agendâu polisi ehangach.

Mae'r cynllun gweithredu yn mynd i'r afael â'r meini prawf hynny sydd wedi'u hasesu fel 'coch' neu 'oren' o fewn y ddogfen asesu, lle bo hynny'n briodol ac yn flaenoriaeth ar gyfer chwarae ym Mlaenau Gwent. Nid yw hyn yn golygu na fydd y meini prawf asesu a raddiwyd fel 'gwyrdd' yn cael eu cefnogi ymhellach, ond y byddant yn parhau i gael eu datblygu fel rhan o waith parhaus gwasanaethau a phartneriaid yr awdurdod lleol.

Cynigir y bydd y camau gweithredu eang canlynol yn cael eu datblygu yn 2025, gyda chamau gweithredu mwy manwl o fewn y rhain wedi'u nodi'n llawn yn y cynllun gweithredu chwarae.

**Poblogaeth**

1. Ehangu ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i ganfod eu hanghenion a'u diddordebau chwarae i gefnogi Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn y dyfodol.

**Mannau lle mae plant yn chwarae**

2. Casglu gwybodaeth leol am ba wasanaethau a darpariaeth sydd ar gael mewn cymunedau lleol i blant a phobl ifanc sy'n cefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae.
3. Cynyddu ymwybyddiaeth o fannau gwyrdd a chymdogaethol sy'n darparu cyfleoedd i blant chwarae a chynnal asesiad o'r mannau sydd ar gael.

4. Er mwyn cefnogi plant i symud o gwmpas a chael mynediad at gyfleoedd i chwarae, mae yna gamau gweithredu sy'n ymwneud â theithio llesol, hyfforddiant beicio, a llywio cymunedau lleol yn ddiogel.
5. Er mwyn gwella ansawdd mannau chwarae, adnewyddu meysydd chwarae a chefnogi creu mannau chwarae hygyrch a chyfleoedd i blant. Ar yr un pryd, grymuso cymunedau lleol i chwarae eu rhan wrth gefnogi chwarae plant.
6. Adolygu'r rhaglen ysgolion lle mae cyfle i chwarae ac ymgysylltu ag ysgolion i hyrwyddo pwysigrwydd darparu amgylchedd chwarae cyfoethog yn ystod y diwrnod ysgol ac i ganfod a oes cyfleoedd i ddefnyddio tir yr ysgol fel ased cymunedol ar gyfer chwarae.

**Darpariaeth dan oruchwyliaeth**

7. Hyrwyddo gwaith chwarae fel proffesiwn drwy 'lwybr chwarae'.
8. Cyflwyno wythnos hyfforddi ar y cyd cyn gwyliau'r haf ar gyfer Tîm Datblygu Chwaraeon Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a gwirfoddolwyr chwarae cymunedol i gefnogi cynhwysiant a darparu darpariaeth o safon.
9. Sicrhau cynaliadwyedd Wild Tots yn y dyfodol.
10. Edrych ar yr opsiynau i adeiladu ar y cynllun benthyg offer chwaraeon a gynigir mewn llyfrgelloedd lleol, gydag adnoddau i hyrwyddo chwarae.
11. Nodi a oes cyfleoedd i adnoddau fod ar gael ar gyfer chwarae trwy dimau a grwpiau ailgylchu a gwastraff.

**Polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth**

12. Adolygu a diweddaru gwybodaeth ar y wefan gorfforaethol a gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i wneud tudalennau'n fwy bywiog a chroesawgar.
13. Ystyried llwybrau posibl ar gyfer buddsoddiad ar raddfa fwy i gefnogi chwarae plant.
14. Darparu gwybodaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'i ganfyddiadau yn cael eu hintegreiddio i'r gwaith o gynllunio, gweithredu ac adolygu cynlluniau strategol.
15. Sicrhau bod chwarae'n cael ei hyrwyddo mewn agendâu polisi a gwybodaeth perthnasol a bod dull partneriaeth yn cael ei ymgorffori wrth ystyried a datblygu strategaethau newydd a phresennol.






Lluniau trwy garedigrwydd Marie Bradley
Enillwyr ein cystadleuaeth ffotograffiaeth
Chwarae ym Myd Natur

# 7. Dadansoddiad o'r themâu

**Poblogaeth:**
**Mater A: Nifer y plant mewn perthynas â phob ystod oedran o fewn ei ardal**
**Mater B: Anghenion plant o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd yn ei ardal**
**Mater D: A oes tâl am ddarpariaeth chwarae a ble mae tâl**

Poblogaeth 0–18 – Mae 20.5% o boblogaeth Blaenau Gwent yn blant rhwng 0 a 18 oed.



Gall data poblogaeth hefyd roi ffigurau ar lefel ward i'r awdurdod lleol.

**Data Poblogaeth 0–18 oed**

| Enw'r Ward | Pob Oedran | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertillery & Six Bells | 1,237 | 64 | 67 | 60 | 65 | 81 | 69 | 60 | 71 | 63 | 65 | 77 | 60 | 78 | 68 | 56 | 71 | 59 | 55 | 48 |
| Beaufort | 1,128 | 49 | 43 | 63 | 66 | 56 | 55 | 58 | 61 | 48 | 80 | 65 | 92 | 59 | 52 | 60 | 70 | 54 | 54 | 43 |
| Blaina | 931 | 42 | 56 | 50 | 43 | 47 | 62 | 52 | 49 | 57 | 50 | 51 | 45 | 59 | 47 | 45 | 42 | 48 | 44 | 42 |
| Brynmawr | 1,057 | 46 | 72 | 52 | 49 | 51 | 50 | 60 | 63 | 57 | 59 | 61 | 53 | 76 | 60 | 53 | 55 | 45 | 52 | 43 |
| Cwm | 726 | 29 | 39 | 33 | 44 | 27 | 32 | 38 | 40 | 49 | 37 | 47 | 46 | 52 | 34 | 42 | 32 | 42 | 27 | 36 |
| Cwmtillery | 956 | 54 | 50 | 47 | 55 | 41 | 37 | 64 | 49 | 62 | 51 | 64 | 58 | 48 | 50 | 39 | 54 | 48 | 45 | 40 |
| Gogledd Glyn Ebwy | 1,043 | 84 | 53 | 52 | 51 | 53 | 48 | 55 | 54 | 57 | 57 | 54 | 49 | 50 | 50 | 55 | 54 | 51 | 47 | 69 |
| De Glyn Ebwy | 939 | 38 | 45 | 44 | 36 | 60 | 50 | 50 | 55 | 55 | 52 | 56 | 49 | 54 | 48 | 44 | 39 | 42 | 70 | 52 |
| Georgetown | 820 | 39 | 44 | 44 | 39 | 41 | 45 | 40 | 48 | 57 | 34 | 34 | 44 | 59 | 38 | 43 | 44 | 52 | 45 | 30 |
| Llanhilleth | 876 | 31 | 48 | 36 | 43 | 46 | 50 | 55 | 41 | 46 | 45 | 57 | 56 | 62 | 57 | 36 | 44 | 35 | 56 | 32 |
| Nantyglo | 1,026 | 46 | 57 | 63 | 55 | 49 | 47 | 46 | 50 | 71 | 47 | 54 | 54 | 60 | 64 | 58 | 55 | 56 | 55 | 39 |
| Rassau & Garnlydan | 827 | 39 | 59 | 38 | 42 | 47 | 35 | 49 | 46 | 45 | 46 | 52 | 56 | 35 | 44 | 45 | 33 | 43 | 29 | 44 |
| Sirhowy | 1,039 | 39 | 59 | 58 | 55 | 58 | 50 | 58 | 63 | 57 | 53 | 59 | 63 | 43 | 48 | 60 | 54 | 55 | 53 | 54 |
| Tredegar Canolog a Gorllewin | 1,171 | 61 | 60 | 56 | 79 | 54 | 66 | 53 | 65 | 71 | 68 | 43 | 64 | 74 | 54 | 77 | 44 | 59 | 72 | 51 |
| | **13,776** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

Plant anabl: Gan ddefnyddio data sydd ar gael gan StatsCymru i lywio'r asesiad hwn, mae 370 o blant anabl rhwng 0 a 15 oed yn byw ym Mlaenau Gwent. (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-localauthority-agegroup)

Y Gymraeg: Mae gan Flaenau Gwent ganran isel o siaradwyr Cymraeg, gyda 6.2% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad, 2021). Yr ardal yw'r ail isaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ymhell o dan y cyfartaledd cenedlaethol o 19%. Mae data CYBLD (2023/24) yn dangos bod 197 o blant ar hyn o bryd sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Grwpiau ethnig lleiafrifol: Mae niferoedd bach (2.2%) o grwpiau ethnig penodol yn y fwrdeistref sirol.

Sipsiwn a Theithwyr: Mae'r awdurdod lleol yn rhedeg un safle Sipsiwn/Teithwyr pwrpasol yng Nghwmcrachen yn Nant-y-glo. Mae gan y safle 19 o leiniau ac mae'n gweithredu rhestr aros. Ar hyn o bryd, mae 37 o blant / pobl ifanc rhwng 0 a 18 oed (gyda phedwar arall yn ymweld bob pythefnos). Mae hyn yn amrywio drwy gydol y flwyddyn, gyda symudiadau, perthnasau'n ymweld ac ati. Nid oes data yn ôl oedran ar gael. Fodd bynnag, mae 135 o boblogaeth Blaenau Gwent, sy'n cyfateb i lai nag 1%, yn nodi eu bod yn Wyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig (Cyfrifiad, 2021).

| |
|---|
| Plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig: Dim ond pedair ardal sydd wedi'u dosbarthu fel rhai gwledig ym Mlaenau Gwent: Pyllau Bedwellte, Trefil, Pochin a Chwm. Mae gan Drefil boblogaeth fach o tua deg o blant, gyda niferoedd tebyg ym Mhyllau Bedwellte a Pochin. Cwm yw'r ardal fwyaf, gyda 726 o blant a phobl ifanc rhwng 0 a 18 oed.<br><br>Plant sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd ac mewn teuluoedd incwm isel: Mae gan Flaenau Gwent un o'r cyfraddau amddifadedd incwm uchaf ymhlith plant yng Nghymru, sy'n dynodi heriau economaidd sylweddol yn yr ardal, gyda 37% o blant yn byw mewn amddifadedd incwm (MALIC, 2019). |
| **Cryfderau**<br><br>Ymgynghori:<br>• Ymgysylltwyd â gwahanol grwpiau o blant a'u teuluoedd i ddeall eu hanghenion.<br>• Roedd amrywiol ddulliau a chyfleoedd ar gael i ymgysylltu â phlant a theuluoedd.<br><br>Dull cynhwysol:<br>• Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo cynhwysiant, gan sicrhau y gall plant ag anableddau gymryd rhan mewn lleoliadau chwarae presennol.<br><br>Darpariaeth:<br>• Mae rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer plant anabl eisoes ar gael drwy Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Sparkle a Barnardo's.<br><br>Mynediad:<br>• Darperir mannau agored sy'n eiddo i'r awdurdod lleol yn rhad ac am ddim i ddarpariaethau chwarae sydd wedi'u comisiynu a/neu sy'n cael eu cyflwyno gan yr awdurdod lleol.<br><br>Y Gymraeg:<br><br>• Mae Mudiad Meithrin yn cynnal grwpiau wythnosol rheolaidd ar gyfer y grŵp oedran 0-3 oed yn ystod tymor yr ysgol: tri grŵp Ti a Fi yn Abertyleri, Bryn-mawr a Rasa a grwpiau Cymraeg i Blant i hyrwyddo'r iaith yn Llyfrgell Tredegar a Chanolfan Hamdden Glynebwy. |
| **Gwendidau**<br><br>Ymgynghori:<br>• Roedd rhai cymunedau wedi ymgysylltu llai, sy'n cyfyngu ar y data a'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. |

- Roedd ymgysylltiad â'r arolwg boddhad chwarae yn is o'i gymharu ag asesiadau blaenorol, a oedd yn cyfyngu ar y data a'r dystiolaeth oedd ar gael.

Mynediad:
- Mae taliadau am rentu safleoedd wedi arwain at rai gwasanaethau'n gorfod lleihau eu cynnig.

Cwmpas daearyddol:
- Mae'r ddarpariaeth yn amrywiol ac nid yw ar gael yn gyson ar draws pob ardal.

Anghenion penodol:
- Efallai fod gan rai grwpiau ofynion penodol nad ydynt yn cael eu diwallu'n llawn gan y gwasanaethau presennol.

Mannau chwarae ag offer sefydlog:
- Offer chwarae cynhwysol annigonol mewn mannau chwarae.

**Cyfleoedd**

Ymgysylltu â'r gymuned:
- Ymgynghori pellach â phlant a rhieni i nodi'r galw am fwy o gyfleusterau neu gyfleusterau penodol.

Ehangu gwasanaethau:
- Annog sefydlu cyfleusterau newydd lle mae angen amlwg.
- Defnyddio canfyddiadau ymgynghoriadau i wella ac ehangu cyfleusterau chwarae cynhwysol.
- Cydweithio a datblygu partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau i wella darpariaeth a hygyrchedd.
- Dylunio mannau chwarae cynhwysol i sicrhau y gall plant o bob gallu gymryd rhan, gan hyrwyddo cydraddoldeb ac integreiddio cymdeithasol.

Cyllid:
- Chwilio am gyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac adnewyddu mannau chwarae cynhwysol.

Y Gymraeg:
- Gwahodd Mudiad Meithrin i ymuno â'r Grŵp Cefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i archwilio ymhellach gyfleoedd ar gyfer darpariaeth chwarae yn y Gymraeg i blant 0-3 oed.

**Bygythiadau**

Cyfyngiadau o ran adnoddau:

- Cyfyngiadau posibl mewn cyllid ac adnoddau i ehangu gwasanaethau.
- Sicrhau bod offer a chyfleusterau cynhwysol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn ddiogel.

Galw amrywiol:

- Gallai galw anwastad ar draws gwahanol ardaloedd gymhlethu cynllunio a gweithredu gwasanaethau newydd.

## Mannau lle mae plant yn chwarae:

**Mater C: Y mannau lle gall plant chwarae, gan gynnwys mannau agored, ac unrhyw fannau eraill**
**Mater Dd: Mesurau traffig a ddefnyddir i hyrwyddo mynediad at chwarae**
**Mater Ff: Y graddau y mae polisïau addysg a chynllunio datblygu lleol yn ystyried yr angen i wella cyfleoedd chwarae i blant**

## Yr hyn y mae plant wedi'i ddweud wrthym:

Mae plant a phobl ifanc eisiau mannau sy'n agos at adref, yn ddiddorol ac yn amrywiol, ac sy'n cynnwys natur. Maen nhw eisiau teimlo eu bod nhw'n ddiogel ac yn cael eu croesawu yn y mannau hynny a bod y lle yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal a'i gadw.

**<u>Grwpiau penodol o blant – grwpiau ffocws a chanfyddiadau arolygon</u>**

<u>Plant anabl:</u>
Ymagwedd yr awdurdod lleol at chwarae yw hyrwyddo cynhwysiant i bawb ac felly bydd y rhai sydd ag angen penodol yn rhinwedd anabledd, diwylliant, iaith, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw reswm arall yn cael eu cefnogi i gymryd rhan o fewn lleoliadau chwarae presennol cymaint â phosibl, yn hytrach na chael eu gwahanu trwy ddarpariaeth wahanol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai fod gan grwpiau penodol ofynion y mae angen darpariaeth benodol ar eu cyfer. Felly mae'r asesiad wedi ystyried lleoliad y ddarpariaeth yn benodol ar gyfer plant anabl ac mae'n amlwg, er bod darpariaeth ar gael, bod cwmpas daearyddol y ddarpariaeth yn amrywio.

Roedd trafodaethau penodol gyda phlant anabl a'u teuluoedd yn nodi diffyg darpariaeth. Mae plant eisiau i barciau fod yn hygyrch ac yn gynhwysol, gan ofyn am 'leoedd mwy diogel a hygyrch ar gyfer chwarae'. Mae plant eisiau lleoedd cynhwysol ar gyfer chwarae gyda'u ffrindiau a'u brodyr a chwiorydd o bob gallu. Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad yn awgrymu bod angen mwy o offer sy'n hyrwyddo cynhwysiant mewn mannau chwarae ledled Blaenau Gwent.

Mae grwpiau a gynhelir gan Teuluoedd yn Gyntaf, Sparkle a Barnardo's yn cael eu gwerthfawrogi gan blant a'u teuluoedd, gan gynnig cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu mewn amgylcheddau diogel a chroesawgar.

Mae Arolwg Bodlonrwydd Chwarae 2025, ynghyd â chanfyddiadau grwpiau ffocws ar gyfer plant ag anableddau ym Mlaenau Gwent, yn rhoi cipolwg pellach ar brofiadau chwarae a lefelau bodlonrwydd.

Amlder chwarae

- Mae 74% o blant ag anableddau yn chwarae y tu allan ychydig ddyddiau bob wythnos neu'r rhan fwyaf o ddyddiau.
- Prin y mae 36% o blant ag anableddau rhwng 7 a 12 oed yn chwarae y tu allan.

Lleoliadau chwarae

- Yn eu tŷ nhw neu dŷ ffrind
- Yn eu gardd neu ardd ffrind
- Mannau glaswelltog lleol
- Mannau chwarae gyda siglenni, llithrennau ac offer eraill
- Meysydd chwarae ysgolion
- Canolfannau cymunedol neu hamdden
- Clybiau/grwpiau ar ôl yr ysgol

Diogelwch a goruchwyliaeth

- Mae 68% o blant ag anableddau fel arfer neu bob amser yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae y tu allan.
- Roedd adolygiad cymysg ar sut maen nhw'n gweld oedolion wrth gefnogi plant sy'n chwarae y tu allan.
- Cludiant i gyfleoedd chwarae i blant ag anableddau a ddarperir gan oedolion, naill ai mewn car neu drwy gerdded gyda nhw. Mae anghysondebau yn y data gan fod llawer wedi ateb hyn er gwaethaf dweud yn flaenorol nad ydyn nhw'n chwarae y tu allan.

Bodlonrwydd â mannau chwarae – roedd adolygiadau cymysg ar ansawdd y mannau chwarae:

- Mae mwyafrif y plant ag anableddau yn eu cael yn iawn ond yn teimlo y gellid eu gwella.
- Mae eraill yn eu disgrifio'n ddiwerth a bod angen gwelliant sylweddol.

Rhwystrau i chwarae – mae problemau cyffredin yn cynnwys:

- Offer wedi torri neu sydd wedi dyddio
- Sbwriel a gwydr wedi torri
- Presenoldeb plant hŷn neu bobl ifanc yn achosi aflonyddwch
- Pryderon traffig a diogelwch

Awgrymiadau ar gyfer gwella

- Mwy o ardaloedd chwarae a rhai sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well
- Mesurau diogelwch uwch fel goleuadau gwell a rheoli traffig yn well
- Offer mwy cynhwysol i blant ag anableddau
- Glanhau a chynnal a chadw rheolaidd i fynd i'r afael â sbwriel a gwydr wedi torri

Bodlonrwydd cyffredinol

- Lefelau amrywiol o foddhad gyda chyfleoedd i chwarae, gyda llawer o blant yn mynegi awydd am fwy o gyfleoedd a chyfleoedd gwell i chwarae.

Mae’r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at yr angen am gyfleusterau chwarae gwell ac amgylcheddau mwy diogel i wella profiadau chwarae plant ym Mlaenau Gwent.

Y Gymraeg: O ran y Gymraeg, mae asesiad o’r ddarpariaeth ar draws Blaenau Gwent yn dangos bod cyswllt rhwng darpariaeth ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle ceir darpariaeth dan oruchwyliaeth sy’n cynnig cyfleoedd i chwarae sy’n hyrwyddo’r Gymraeg trwy gynnwys elfennau Cymraeg. Nid oedd y grŵp yn teimlo’r angen am ddarpariaeth benodol yn y Gymraeg ond roeddent yn meddwl y dylid cynnwys elfennau o’r Gymraeg. Cefnogwyd y farn hon ymhellach trwy fynychu digwyddiad cyfrwng Cymraeg ym mis Ionawr 2025 a thrwy ein harolwg clybiau a grwpiau, lle gofynnwyd i deuluoedd a oedd angen neu ddiddordeb mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Felly, bydd yr awdurdod lleol yn parhau i weithio gyda grwpiau Cymraeg fel Menter Iaith a Mudiad Meithrin i benderfynu ar yr angen trwy ymgynghori ymhellach â phlant a rhieni lle bydd galw am fwy o gyfleusterau ac i annog darparu’r cyfleusterau hyn lle bo’n briodol.

Grwpiau ethnig lleiafrifol: Mae nifer fach o grwpiau ethnig penodol yn byw ym Mlaenau Gwent. I deuluoedd ESOL (Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill), yr her oedd peidio â gwybod beth sydd ar gael yn y gymuned, a phryd mae digwyddiadau, gyda’r iaith yn brif rwystr. Er nad oes galw penodol wedi’i nodi am ddarpariaeth chwarae sy’n benodol i ddiwylliant ac nad yw diffyg darpariaeth sy’n benodol i ddiwylliant wedi’i nodi fel rhwystr i chwarae, mae cysylltiadau wedi’u gwneud i godi ymwybyddiaeth o’r hyn sy’n digwydd mewn cymunedau lleol.

Sipsiwn a Theithwyr: Nododd naw o blant a ymgysylltodd â’r grŵp fod cyfleoedd i chwarae yn gyfyngedig oherwydd eu diwylliant o beidio â chymysgu â’r gymuned y tu allan i'r safle ac nad oes lle dynodedig ar gyfer chwarae. Mae plant yn chwilio am fannau eraill, gan gynnwys tir gwastraff, ffyrdd o amgylch y safle, yn y lôn sy’n arwain at y safle, neu yn y caban cymunedol (cynhwysydd cludo bach wedi’i drawsnewid yn ofod cymunedol ac yn gyfyngedig iawn). Mae gweithgareddau chwarae yn cynnwys adeiladu cuddfannau, reidio beiciau, gwneud siglenni coed, dringo coed, a gemau cuddio o amgylch y safle neu yng nghartrefi ei gilydd. Ystyriodd y plant fod peidio â chael lle dynodedig, dim gerddi, traffig yn dod i mewn i’r safle ac allan ohono, sbwriel a baw cŵn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i chwarae. Mae gemau pêl yn gyfyngedig oherwydd agosrwydd cerbydau wedi’u parcio a chartrefi.

Plant sy’n byw mewn ardaloedd gwledig: Dim ond pedair ardal sydd wedi’u dosbarthu fel rhai gwledig ym Mlaenau Gwent: Pyllau Bedwellte, Trefil, Pochin a Chwm. Siaradodd y plant am gyfleoedd i chwarae yn y coedwigoedd, caeau, parciau a meysydd chwaraeon cyfagos, a lagŵn a chwarel yn Nhrefil, gyda llawer o le agored a lleoedd i archwilio a chwrdd â ffrindiau. Roedd y plant yn ymwybodol iawn o weithgareddau chwarae peryglus, gyda sylwadau’n cynnwys ‘Byddwch yn ofalus ar greigiau llithrig’ a ‘Byddwch yn ofalus o amgylch dŵr’. Teimlai plant sy’n byw yng Nghwm fod yr ardal chwarae yn Stryd Gwilym ‘yn wych nawr’ ac yn darparu llawer o offer a digon i’w wneud, er bod sbwriel a gwydr wedi torri wedi’u nodi gan sawl plentyn.

LHDTC+: Dywedodd canfyddiadau'r grwpiau ffocws wrthym fod plant LHDTC+ yn teimlo mai'r unig gyfle gwirioneddol oedd gan y grŵp i dreulio amser gyda'i gilydd (gan eu bod yn byw ymhell oddi wrth ei gilydd) oedd yn ystod amser cinio yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyn am amser hir (10 munud) ac ni allant fynegi eu hunain mewn gwirionedd gan mai'r unig le i fynd iddo yw'r llyfrgell. Teimlai'r plant yr hoffent allu creu eu lle eu hunain y tu allan i'r diwrnod ysgol i gyfarfod.

Gofalwyr ifanc: Tynnodd grŵp ffocws a gynhaliwyd gydag 14 o ofalwyr ifanc rhwng 5 ac 14 oed sylw at fannau chwarae yr oeddent yn eu mwynhau a rhai o'r pethau yr oeddent wrth eu bodd yn eu gwneud. Roeddent yn mwynhau treulio amser gyda'u ffrindiau ar ôl yr ysgol ac ymweld â mannau chwarae lleol, er eu bod yn brysur gyda phethau eraill. Roedd gwydr, sbwriel a phobl ifanc eraill yn rhwystr.

*'Mae'r dringwr yn wirioneddol frawychus. Cymerodd amser hir i mi allu dringo'r dringwr gan ei fod yn anodd ar y dechrau oherwydd fy mod i mor fach, ond rydw i'n fwy nawr a, dyfalwch beth, fe wnes i fe!'*

Plant sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd ac mewn teuluoedd inc
mwyaf yw cost a hygyrchedd. Oherwydd natur Blaenau Gwent, gall fod
enghraifft, o Abertyleri i Dredegar, byddai taith 10 milltir (20 munud mew
o deuluoedd rhag cael mynediad at ddarpariaeth y tu allan i'w cymuned
ofynnir, 'Pa mor dda yw eich cyfleoedd i chwarae a threulio amser gyda'i gilydd?', atebodd 38% eu bod naill ai'n ddiwerth neu ddim yn dda.

**<u>Ble mae plant yn chwarae – beth mae ymgysylltu ac ymgynghori yn ei ddweud wrthym</u>**

Oedran cyfartalog: Roedd oedran cyfartalog y plant a gwblhaodd ein harolwg boddhad chwarae yn 10 oed, gydag oedran tebyg ar gyfer y rhai a gymerodd ran yng ngweithgareddau ein grwpiau ffocws.

Chwarae y tu allan:

- Amlder: Dywedodd mwyafrif y plant a gwblhaodd ein harolwg boddhad chwarae eu bod yn chwarae y tu allan ychydig ddyddiau bob wythnos. Fodd bynnag, dywedodd 16% o blant oedran ysgol gynradd nad ydynt yn chwarae nac yn treulio amser gyda ffrindiau ac yn chwarae gartref neu mewn mannau chwarae dynodedig yn bennaf. I'r plant hynny rhwng 4 ac 11 oed sy'n chwarae y tu allan, maent yn mwynhau mwy o ryddid – yn chwarae yn eu strydoedd, parciau a siopau lleol ac o amgylch eu cymuned leol gyfagos. Plant hŷn sydd â'r rhyddid symud mwyaf, gan gyfarfod â ffrindiau mewn canolfannau hamdden, parciau, canolfannau siopa lleol ac ardaloedd lleol.

Lleoliadau chwarae:

- Mannau cyffredin: Mae plant yn chwarae mewn amrywiol leoliadau, fel eu tŷ neu dŷ ffrind, gerddi, mannau glaswelltog lleol, mannau chwarae gyda siglenni a llithrennau, coedwigoedd, caeau pêl-droed, a meysydd chwarae ysgolion.
- Lleoliadau dewisol: Roedd plant iau yn tueddu i ffafrio mannau chwarae ag offer sefydlog, gyda phlant hŷn (10 oed a hŷn) yn ffafrio canolfannau hamdden, mannau cymunedol, meysydd chwarae, siopau lleol ac ardaloedd coedwig/coediog.

Diogelwch ac ansawdd mannau chwarae:

- Diogelwch: Mae 73% o blant fel arfer yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae, nid yw 18% byth yn teimlo'n ddiogel, ac mae 9% yn dweud nad ydyn nhw'n chwarae y tu allan. Mae rhai anghysondebau rhwng y canfyddiadau amlder a diogelwch gan fod rhai plant wedi ateb y ddau gwestiwn hyn yn wahanol.
- Ansawdd: Mae ansawdd mannau chwarae yn gymysg, gyda 62% yn gweld bod cyfleoedd chwarae naill ai'n wych neu'n dderbyniol. Mae'n anodd canfod boddhad ar lefelau is yr awdurdod lleol gan fod gan ardaloedd wahanol raddau o ymgysylltiad drwy'r arolygon a gweithgareddau'r grwpiau ffocws.

Goruchwyliaeth oedolion a chludiant:

- Goruchwyliaeth: Nododd 63% o blant dros 9 oed eu bod yn cael chwarae allan ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau. Mae gan blant fynediad at ffonau symudol i gadw mewn cysylltiad â'u rhieni ac amseroedd penodedig i fod adref sy'n adlewyrchu amser y flwyddyn / diwrnod yr wythnos.
- Cludiant: Fel arfer, mae plant yn cyrraedd mannau chwarae drwy gerdded neu feicio gyda ffrindiau neu drwy gael eu cludo gan oedolyn mewn car.

Cyfleoedd chwarae cyffredinol

- Bodlonrwydd: Mae bodlonrwydd cyffredinol gyda chyfleoedd chwarae yn amrywio ac nid yw'n gyson ymhlith plant sy'n byw yn yr un gymuned leol, gyda rhai plant yn eu cael yn wych tra bod eraill yn meddwl bod angen iddynt fod yn llawer gwell.

Agweddau cadarnhaol mannau chwarae

- Cymdeithasu: Mae plant yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymdeithasu gyda ffrindiau fel agwedd bwysig o chwarae a threulio amser gyda'i gilydd.
- Amrywiaeth: Ar draws Blaenau Gwent, mae amrywiaeth o leoedd i dreulio amser, fel mannau chwarae, parciau a chaeau a mynediad i goedwigoedd, gyda phlant yn ddangos y byddant yn dod o hyd i fannau lle gellir chwarae yn eu cymunedau lleol.

Agweddau negyddol a meysydd i'w gwella

*Rhaid i ni wylio am geir. Mae oedolyn yn gweiddi i fyny'r stryd ac rydyn ni i gyd yn mynd i'r palmant.*

- Traffig a diogelwch: Pryderon ynghylch traffig, diffyg croesfannau diogel, a cheir yn goryrru.
- Glendid: Problemau gyda sbwriel, gwydr wedi torri, baw cŵn a fandaliaeth mewn mannau chwarae.
- Cyfleusterau: Angen mwy o offer chwarae ac offer gwell, parciau wedi'u diweddaru, a chyfleusterau ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc.
- Hygyrchedd: O ganfyddiadau'r arolygon, soniodd dau blentyn 9 oed am ddiffyg offer hygyrch i gadeiriau olwyn a mynediad cyfyngedig i fannau chwarae.

Adborth ychwanegol

- Digwyddiadau cymunedol: Gwerthfawrogiad am ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol a drefnir gan yr awdurdod lleol a phartneriaid.

- Awgrymiadau: Mwy o glybiau ieuenctid, goleuadau gwell, parciau glanach, a mwy o weithgareddau ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.

**Cryfderau**

Mannau:

- Cynhaliwyd asesiad o fannau chwarae awyr agored ffurfiol Blaenau Gwent dros gyfnod o bum wythnos ym mis Chwefror a mis Mawrth 2025. Aseswyd yr holl fannau chwarae awyr agored ffurfiol sy'n eiddo i'r cyngor neu'n cael eu rheoli ganddo ym Mlaenau Gwent. At ei gilydd, aseswyd 53 o fannau chwarae awyr agored ffurfiol sy'n eiddo i Gyngor Blaenau Gwent neu'n cael eu rheoli ganddo gan dîm chwarae Blaenau Gwent.
- Mae mannau lle mae plant yn chwarae wedi'u mapio ar yr asesiad mannau agored, gan gynnwys mannau chwarae ag offer sefydlog, cyrtiau pêl, mannau chwaraeon olwynion, meysydd chwarae, mannau amwynder, mannau gwyrdd a mannau cymunedol lleol.
- Mae canfyddiadau'r arolwg 'lle mae plant yn chwarae' wedi helpu i greu trosolwg o ba fannau cymdogaeth y mae plant yn eu defnyddio ar gyfer chwarae.
- Mae mannau'n annog plant i ryngweithio, cydweithio a datrys gwrthdaro, gan feithrin sgiliau cymdeithasol.
- Mae proses i drefnu cau ffordd dros dro.
- Mae canfyddiadau'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn parhau i gyfrannu at y Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau bod y cynllun yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion chwarae awyr agored plant o wahanol grwpiau oedran a galluoedd.

Mynediad:

- Cyflwynwyd cynlluniau bysiau cerdded i bob ysgol.
- Cynigir hyfforddiant beicio Lefel 1 a Lefel 2 i bob ysgol ledled Blaenau Gwent.

**Gwendidau**

Mannau:

- Er bod gwerth chwarae yn cael ei asesu, mae dulliau cyfyngedig o sicrhau gwelliannau oherwydd cyllid cyfyngedig.
- Nid yw pob man wedi'i nodi a'i asesu o ran gwerth chwarae.
- Nid yw'r adroddiad rhesymoli ar gyfer mannau chwarae ag offer sefydlog wedi cael ei ailystyried ers y darn gwaith cychwynnol yn 2018.
- Mae cyllid ac adnoddau cyfyngedig yn effeithio ar y gwaith o ddatblygu a chynnal a chadw mannau chwarae, gan effeithio ar ansawdd a hygyrchedd mannau chwarae.
- Mae mannau chwarae yn destun fandaliaeth neu gamddefnydd, gan effeithio ar eu diogelwch a'u defnyddioldeb.
- Nid yw rhai mannau chwarae yn hawdd eu cyrraedd i bob plentyn, yn enwedig y rhai ag anableddau.
- At ei gilydd, mae diffyg darpariaeth ar draws y math o ardal chwarae â chyfarpar ar lefel y sir, o ran y ddarpariaeth gyffredinol o fannau chwarae â chyfarpar / dynodedig. Dangosir bod pob un o'r 14 ward islaw'r safon meincnod o 0.25 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth. Y lefel

- uchaf o ddarpariaeth oedd yn Georgetown, gyda 0.11 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth, a'r lefel isaf o ddarpariaeth oedd yng Nghwmtyleri, gyda 0.02 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth (Asesiad Mannau Agored, 2025).
- Mae ansawdd mannau chwarae ag offer chwarae sefydlog ledled Blaenau Gwent yn parhau i fod yn thema yn yr ymgynghoriad a'r adborth gan blant a theuluoedd ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn. Mae hyn hefyd wedi'i amlygu yn adroddiadau arolygu mannau chwarae blynyddol yr awdurdod lleol, gydag offer yn dod i ddiwedd eu hoes neu angen eu hatgyweirio / eu cynnal a chadw.
- Ni wneir ceisiadau cau ffyrdd dros dro i blant chwarae y tu allan i'w cartrefi.
- Mae rhai ysgolion yn cwtogi amser chwarae yn yr ysgol o ganlyniad i ymddygiad gwael.

Mynediad:
- Mae cynlluniau bysiau cerdded wedi bod yn anodd eu cynnal.

Polisi:
- Mae diffyg ymwybyddiaeth ymhlith llunwyr polisi am bwysigrwydd chwarae yn llesteirio datblygu polisïau effeithiol.

**Cyfleoedd**

Cyllid Llywodraeth Cymru:
- Bydd cyllid cyfalaf 2025/26 Grantiau Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan yn cefnogi adnewyddu mannau chwarae. Mae angen defnyddio dulliau arloesol i wella/datblygu mannau chwarae.

Cyllid:
- Ceisio grantiau a chyllid i ddatblygu mannau chwarae newydd ac uwchraddio rhai presennol.

Mannau:
- Ni chafodd mannau chwarae nad ydynt yn eiddo i'r cyngor nac yn cael eu rheoli ganddo eu cynnwys yn yr asesiad, gan fod diffyg data am y mannau hyn, ac nid oes gan y cyngor awdurdodaeth i ddylanwadu ar eu cynnal a'u cadw nac i wella na gwneud argymhellion ar gyfer newid yn y mannau hyn. Mae hwn yn faes y gellid ei ystyried ar gyfer adroddiadau Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn y dyfodol drwy'r Grŵp Cefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.
- Nodi ac asesu mannau cymunedol o ran gwerth chwarae.
- Ailedrych ar yr adroddiad rhesymoli ar gyfer mannau chwarae a gynhaliwyd yn 2018 i benderfynu ar flaenoriaethau ariannu yn y dyfodol.
- Cyflwyno offer/nodweddion chwarae newydd a diddorol sy'n ysgogi cyfleoedd i chwarae.

- Defnyddio nodweddion naturiol i greu amgylcheddau chwarae mwy naturiol.
- Gall ymgorffori chwarae mewn amgylcheddau addysgol yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ôl hynny wella canlyniadau dysgu, gwneud addysg yn fwy deniadol, a darparu mannau diogel i blant chwarae.
- Gall llwybrau diogel i'r ysgol hyrwyddo cerdded a beicio, gan gynyddu mynediad plant i fannau chwarae.
- Datblygu rhaglenni sy'n pwysleisio chwarae yn yr awyr agored a chwarae sy'n seiliedig ar natur i wella cyfleoedd plant i chwarae.
- Cefnogi cymunedau lleol i sefydlu grwpiau 'cyfeillion' i gefnogi mannau cymunedol lleol ar gyfer chwarae.
- Treialu cau ffyrdd i gefnogi chwarae plant yn eu cymunedau lleol.

Ymgysylltu:

- Gall hyrwyddo chwarae actif wella iechyd corfforol, lleihau gordewdra yn ystod plentyndod, ac annog arferion iach gydol oes.
- Gall mannau chwarae weithredu fel canolfannau ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, gan feithrin ymdeimlad o gymuned a pherthyn.
- Gall cynnwys cymunedau yn y broses o ddylunio a chynnal a chadw mannau chwarae wella eu hansawdd a pha mor hygyrch ydynt.
- Defnyddio mewnwelediadau gan blant a rhieni i wella ac ehangu cyfleusterau chwarae.
- Codi ymwybyddiaeth drwy gymunedau lle mae cyfle i chwarae a chefnogi sefydlu grwpiau cyfeillion.
- Ailgyflwyno'r rhaglen ysgolion lle mae cyfle i chwarae i hyrwyddo chwarae yn ystod y diwrnod ysgol a mynediad ar ôl y diwrnod ysgol.

Partneriaethau:

- Cydweithio â sefydliadau a busnesau lleol i wella cyfleusterau a hygyrchedd mannau chwarae.

Eirioli dros bolisïau:

- Gall dadlau dros bolisïau chwarae cryfach arwain at integreiddio chwarae'n well.
- Ymgorffori gwerth plant yn gallu profi risg a her ym mholisïau'r awdurdod lleol.

**Bygythiadau**

Mynediad:

- Gall datblygu a diffyg mannau gwyrdd gyfyngu ar gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored.

Cyfyngiadau o ran adnoddau:

- Gallai argaeledd adnoddau effeithio ar y gwaith o ddatblygu a chynnal a chadw mannau chwarae.
- Gall mannau chwarae barhau i gael eu fandaleiddio neu eu camddefnyddio, gan effeithio ar eu diogelwch a'u defnyddioldeb.

- Gall dirwasgiadau economaidd gyfyngu ar gyllid ar gyfer mentrau sy'n gysylltiedig â chwarae.
- Mae creu amgylcheddau chwarae diogel a diddorol yn gofyn am adnoddau sylweddol.
- Efallai nad gosod darnau unigol o offer chwarae sefydlog yw'r defnydd mwyaf effeithiol o gyllid.

Demograffeg sy'n newid:

- Gallai newidiadau yn nemograffeg y boblogaeth newid y galw am fannau chwarae mewn rhai cymunedau.

Polisi:

- Gall newidiadau mewn blaenoriaethau gwleidyddol effeithio ar barhad ac effeithiolrwydd polisïau chwarae.

## Darpariaeth dan oruchwyliaeth:

**Mater Ch: Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth**
**Mater E: Hyfforddiant gwaith chwarae a datblygu'r gweithlu**

## Yr hyn y mae plant wedi'i ddweud wrthym:

Drwy grwpiau ffocws, sgyrsiau wyneb yn wyneb a chanfyddiadau arolygon, ynghyd ag ymchwil gymunedol leol, roeddem yn gallu ystyried darpariaeth dan oruchwyliaeth a sut mae gwahanol glybiau/grwpiau/darpariaeth yn diwallu anghenion a diddordebau plant a phobl ifanc wrth ddarparu cyfleoedd i chwarae a threulio amser gyda'i gilydd.

Darpariaeth gwyliau: Darperir darpariaeth chwarae yn ystod gwyliau ysgol ym Mlaenau Gwent gan yr awdurdod lleol neu ddarparwyr gofal plant neu drwy bartneriaid yr awdurdod lleol.

Gofal plant yn ystod gwyliau ysgol: Er bod nifer y darparwyr sy'n cynnig gofal plant yn ystod gwyliau ysgol yn isel, mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gofal dydd llawn yn cynnig lleoedd sesiynol, ar ôl yr ysgol ac yn ystod gwyliau, gyda'r argaeledd, y gost a'r oedran y mae'r lleoedd yn addas iddynt yn dibynnu ar natur y lleoliad. Yn ogystal, mae pob gwarchodwr plant yn cynnig o leiaf rhywfaint o ddarpariaeth yn ystod y gwyliau. Ym Mlaenau Gwent, darperir y rhan fwyaf o ofal plant yn ystod gwyliau ysgol i deuluoedd sy'n gweithio gan deulu neu ffrindiau agos, felly mae gan lawer o'n clybiau gwyliau leoedd gwag.

Darpariaeth chwarae mynediad agored: Mae tîm chwarae Blaenau Gwent yn cyflwyno sesiynau chwarae mynediad agored ledled Blaenau Gwent, yn gyffredinol dros bob cyfnod gwyliau ysgol ac eithrio'r Nadolig, gan gynnig hyd at chwe sesiwn dwy awr yr wythnos mewn gwahanol leoliadau. Mae'r sesiynau wedi'u hanelu at blant 4–14 oed ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd a gweithgareddau i ennyn diddordeb plant mewn chwarae a'i hyrwyddo, gyda chefnogaeth tîm o weithwyr chwarae a gwirfoddolwyr chwarae cymunedol.

Hoffais fod pethau i fy mhlant un oed a saith oed eu gwneud ac roeddwn i'n gallu diddanu'r ddau

Digon o bethau i chwarae â nhw ac alla i ddim credu ei fod wedi bwyta brechdan tiwna a chorn melys!

Roedd llawer i'w wneud, ac mae fy mhlant wedi cael prynhawn gwych – diolch yn fawr

Daliwch ati gyda'r gwaith da – mor hyfryd gweld y plant yn chwarae ac yn mwynhau eu hunain

Yn yr haf, mae'r tîm chwarae yn dod lan i'r parc ac rydyn ni'n cael gwneud llawer o bethau – celf a chrefft a chwarae rhai gemau – cawson ni lithren ddŵr hwyliog yno yn yr haf

B[illegible]sgol dros bythefnos yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn targedu'r plant sydd fwyaf mewn angen a nodwyd gan yr ysgolion felly nid yw o reidrwydd yn opsiwn i rieni sy'n gweithio sy'n chwilio am ddarpariaeth yn ystod y gwyliau.

Cynlluniau chwarae chwaraeon: Mae Tîm Datblygu Chwaraeon Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn cynnig cynlluniau chwarae mewn canolfannau hamdden ar draws y tri safle yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae cynlluniau chwarae wedi'u hanelu at blant 8–12 oed, gyda thâl bach, a gellir cadw lleoedd. Dywedodd y plant wrthym eu bod wrth eu bodd â'r amrywiaeth o gemau, ac roedd yn wych treulio amser gyda'u ffrindiau.

Clwb Llan: Wedi'i leoli yn Sefydliad Llanhiledd ac wedi'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol, mae rhaglen Arian i Bawb yn cynnig darpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol i blant 0–16 oed a'u teuluoedd. Cynigir amrywiaeth o wahanol weithgareddau/gweithdai drwy gydol gwyliau'r ysgol: becws/coginio i'r teulu, crefftau i'r teulu, garddio i'r teulu, nosweithiau ffilmiau i'r teulu, becws/coginio i bobl ifanc, gweithdai crefftau, grwpiau synhwyraidd babanod, gweithdai gymnasteg, gweithdai cerddoriaeth (drymio/bîtbocs), gweithdai drama a gweithdai llysnafedd. Mae Clwb Llan hefyd yn cynnal cynllun llwgu yn ystod y gwyliau drwy gydol y gwyliau ysgol, gan ddarparu brecwast a chinio am ddim i blant 0–16 oed.

*'Mae'r staff mor gyfeillgar a threfnus. Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn anhygoel – maen nhw wedi gwneud gwyliau'r ysgol mor bleserus i bob oed. Diolch i bawb, rydych chi'n cael eich gwerthfawrogi'n fawr.'*

*'Hoffwn dd[illegible]m y sesiynau anhygo[illegible]u pen eu hunain [illegible]dw i wedi mwynh[illegible]Mae wedi gwneud ha[illegible]wer gwell cael gweithgaredda[illegible]eud a gweld eu ffrindiau a gwneud rhai newydd hefyd.'*

*'Clwb anhygoel wedi'i anelu at blant o bob oed. Mae fy rhai i rhwng 8 a 12 oed ac mae'r pedwar plentyn wrth eu bodd yn mynychu ac yn cymryd rhan.'*

Gwasanaeth Ieuenctid: Mae darpariaeth ieuenctid yn darparu mannau diogel i bobl ifanc dreulio amser gyda'i gilydd, gan ddarparu lle diogel i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden ac addysgol amrywiol sy'n meithrin eu datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu rhaglen haf gynhwysfawr o weithgareddau wrth gadw darpariaethau clwb ieuenctid gyda'r nos ar agor drwy gydol y gwyliau. Mae'r rhaglen haf yn cwmpasu chwe wythnos cyfnod gwyliau'r ysgol ac yn canolbwyntio ar weithgareddau sydd wedi'u hanelu at gefnogi lles a rhyngweithio cymdeithasol.

<u>Gweithgareddau a chlybiau ar ôl yr ysgol</u>:

Clybiau ar ôl yr ysgol: Fel gyda gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol uchod, defnyddir clybiau ar ôl yr ysgol yn gyffredinol ar gyfer gofal plant i gefnogi rhieni sy'n gweithio. O'n holiaduron i leoliadau, gallwn ganfod bod clybiau ar ôl yr ysgol / gwyliau yn cael eu defnyddio'n fwy ar gyfer plant 4–7 oed, hyd at uchafswm o 12 oed. Mae plant yn mwynhau gallu treulio amser gyda'u ffrindiau y tu allan i'r ysgol ac yn mwynhau'r ystod o weithgareddau.

Clybiau/gweithgareddau ysgol: O'r ysgolion hynny a gwblhaodd ein harolwg, dywedodd 40% fod yr ysgol yn darparu clybiau ar ôl yr ysgol, fel pêl-rwyd, pêl-droed a rygbi, i'w disgyblion.

Nododd un ysgol:

> *Mae newid wedi bod yn y ffordd y mae disgyblion yn chwarae. Nid yw rhai disgyblion yn hoffi mynd allan, mae rhai yn ei chael hi'n anodd rhyngweithio ag eraill, ac nid yw rhai yn gwybod sut i chwarae mewn amgylchedd awyr agored.*

Clwb Llan: Yn darparu clybiau ar ôl yr ysgol a ariennir gan y Loteri Fawr (Dyfodol Disglair) ar gyfer plant Sant Illtyd rhwng 4 ac 11 oed a chlwb ieuenctid ar gyfer plant Blaenau Gwent rhwng 11 ac 16 oed. Ar hyn o bryd, mae 108 o blant wedi cofrestru ar gyfer clybiau ar ôl yr ysgol yng Nghlwb Llan. Yn ystod y clybiau ar ôl yr ysgol, gall plant ddysgu sgiliau mewn coginio, celf a chrefft, chwarae, cymdeithasu, garddio, chwaraeon a TGCh, a manteisio ar gyfleoedd i fod yn rhan o'r gymuned, gan gynnwys cyfleoedd i wirfoddoli gyda'r clwb ieuenctid. Mae Clwb Llan wedi mynd o nerth i nerth ers ei lansio yn 2019, gan ymgysylltu â phlant lleol rhwng 3 ac 16 oed sy'n wynebu anfantais, gyda'r nod o godi dyhead, mynd i'r afael ag anghenion penodol, lleihau ynysigrwydd, a galluogi plant i gymryd mwy o ran yn eu cymuned.

Dechrau'n Deg: Mynegodd teuluoedd fod hybiau Dechrau'n Deg yn cynnig amgylchedd cyfoethog ac amrywiol gyda digon o gyfleoedd a oedd yn cefnogi chwarae eu plentyn.

Teuluoedd yn Gyntaf: Mynegwyd mewn ymgynghoriad â gofalwyr ifanc eu bod yn mwynhau cwrdd ag eraill, ac yn mwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd a oedd ar gael iddynt yn ystod gwyliau'r ysgol. Roeddent hefyd yn teimlo bod y tîm yn gefnogol ac yn edrych ymlaen at fynychu bob wythnos.

Canolfannau chwarae dan do: Mae gennym nifer o ganolfannau chwarae dan do masnachol ym Mlaenau Gwent sy'n darparu cyfleoedd chwarae i blant 0–14 oed a'u teuluoedd, gan gynnig amrywiaeth o wahanol grwpiau, gan gynnwys grwpiau babanod, penwythnosau cymeriadau, grwpiau chwarae, a sesiynau chwarae cyffredinol. Mae canolfannau chwarae dan do yn lleoliadau poblogaidd gyda phlant o bob oed, gan ddarparu mannau diogel i chwarae.

<u>Clybiau a grwpiau</u>

<u>Grwpiau oedran</u>: Mae plant sy'n cymryd rhan mewn clybiau a grwpiau yn amrywio o rhwng 2 oed a 18+ oed.

<u>Presenoldeb</u>: Mae plant yn mynychu clybiau a grwpiau ar sawl diwrnod o'r wythnos, gan gynnwys dyddiau'r wythnos a phenwythnosau, er bod sawl rhiant yn teimlo y dylai mwy o glybiau a grwpiau fod ar gael ar y penwythnos.

<u>Mathau o glybiau/grwpiau</u>: Mae clybiau a grwpiau cyffredin yn cynnwys grwpiau mewn lifrai (e.e. Sgowtiaid, Cybiau), nofio, crefftau ymladd, dawns (bale), chwaraeon (pêl-droed, rygbi, criced, campfa), grwpiau rhieni a phlant bach, celfyddydau perfformio (cerddoriaeth, drama), a grwpiau rhieni/plant eraill.

<u>Heriau a rhwystrau</u>

- Cost: Mae costau clybiau/grwpiau yn amrywio, gyda rhai am ddim ac eraill yn codi dros £10 y sesiwn.
- Hygyrchedd: Mae heriau'n cynnwys parcio cyfyngedig.
- Hygyrchedd: Diffyg lleoliadau sy'n cynnal grwpiau babanod.
- Hygyrchedd: Anawsterau wrth archebu sesiynau.
- Hygyrchedd: Nid yw rhai rhieni'n ymwybodol o ba glybiau a grwpiau sydd ar gael yn eu cymuned leol neu ar draws Blaenau Gwent.
- Cludiant: Mae rhai rhieni'n wynebu anawsterau oherwydd diffyg cludiant neu bellteroedd teithio hir.

<u>Adborth ar glybiau a grwpiau</u>

Agweddau cadarnhaol:

- Mae clybiau a grwpiau'n cael eu gwerthfawrogi am helpu plant i gymdeithasu, meithrin hyder, dysgu sgiliau newydd, a chymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau.
- Mae staff cymwys a darparwyr cofrestredig yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Meysydd i'w gwella:

- Mae awgrymiadau'n cynnwys mwy o glybiau ar gyfer grwpiau oedran penodol.
- Gwell hygyrchedd.
- Mwy o wybodaeth am y clybiau sydd ar gael.

Ffactorau pwysig i rieni

- Ystyriaethau: Wrth ddewis clybiau/grwpiau, mae rhieni'n blaenoriaethu cost, diddordeb y plentyn, lleoliad, y gweithgareddau a ddarperir, staff cymwys, ac argymhellion sydd wedi dod i law.

Adborth ychwanegol

- Awgrymiadau: Mae rhieni'n awgrymu cael gwared ar systemau tocynnau ar gyfer rhai grwpiau wythnosol gan eu bod yn teimlo bod rhai teuluoedd yn monopoleiddio tocynnau nad ydynt o bosibl yn eu defnyddio, gan arwain at rai teuluoedd yn dymuno mynychu'r grŵp ond heb fod lle ar gael.
- Darparu mwy o glybiau i blant bach, yn enwedig rhai dan 2 oed.

**Cryfderau**

Darpariaeth:

- Dealltwriaeth dda o'r hyn sydd ar gael mewn cymunedau lleol.
- Mae'r awdurdod lleol yn cynnig darpariaeth chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol ac yn ystod y tymor a ddarperir gan dîm o weithwyr chwarae a gwirfoddolwyr.
- Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi ehangu ei gyrhaeddiad drwy gyflwyno darpariaeth ychwanegol mewn amrywiol leoliadau cymunedol.
- Mae Tîm Datblygu Chwaraeon Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn parhau i ddarparu gweithgareddau hamdden i blant a phobl ifanc drwy raglenni iechyd, hamdden a lles.
- Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi nifer o blant ag anghenion ychwanegol – cynigir chwarae i'r plant drwy'r clwb ieuenctid cynhwysol.
- Mae darpariaeth chwarae â staff a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn bodloni gofynion rheoleiddio a safonau gofynnol cenedlaethol fel arfer da.
- Gwaith da mewn partneriaeth ar draws darparwyr darpariaeth gwyliau i sicrhau cyrhaeddiad eang, gan leihau dyblygu a manteisio i'r eithaf ar adnoddau.
- Drwy'r Rhwydwaith Dibyniaeth ar Fwyd, dod â'r ddarpariaeth sy'n cynnig bwyd a byrbrydau ynghyd a'i mapio yn ystod cyfnod gwyliau'r haf.
- Mae amrywiaeth o raglenni magu plant yn cael eu darparu ar draws hybiau Dechrau'n Deg, gan alluogi teuluoedd i gael mynediad at amgylcheddau chwarae llawn cyfathrebu i annog a chefnogi rhieni i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar chwarae er mwyn datblygu cyfathrebu ac iaith eu plentyn.

Y gweithlu:

- Mae gwirfoddolwyr chwarae cymunedol yn cefnogi cyflwyno cyfleoedd ar gyfer chwarae.
- Sicrhaodd yr awdurdod lleol swydd gweithiwr chwarae rhan-amser i gefnogi'r ddarpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae adolygiad diweddar o'r tîm wedi arwain at ychwanegu swydd cydgysylltydd chwarae; fodd bynnag, roedd hynny'n golygu colli swydd y gweithiwr chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol.

Ansawdd:

- Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda darparwyr, gan ddarparu cyngor, canllawiau a hyfforddiant i hyrwyddo pwysigrwydd darparu cyfleoedd chwarae o safon.
- Mae pob lleoliad cofrestredig sy'n cynnig darpariaeth gwaith chwarae wedi cofrestru ar gyfer rhaglen sicrhau ansawdd yr awdurdod lleol.
- Datblygwyd 'Mae Ansawdd yn Bwysig' yn 2022 ac fe'i hadolygwyd yn 2024 drwy broses ddatblygu ar y cyd gan ymarferwyr, ar gyfer ymarferwyr. 'Rydym yn Chwarae' yw rhaglen sicrhau ansawdd yr awdurdod lleol ar gyfer clybiau ar ôl yr ysgol a chlybiau gwyliau.
- Mae'r offeryn yn asesu pedair thema: lles, gofal a datblygiad, yr amgylchedd, ac arweinyddiaeth. Caiff ansawdd chwarae ei asesu drwy gydol thema'r amgylchedd, y gofod dan do ac yn yr awyr agored, risg a her, a sut mae plant yn cael eu cefnogi i ddatblygu hyder, annibyniaeth a gwydnwch. Mae'r offeryn yn seiliedig ar raddfa o wyrdd, melyn, oren a choch. Mae oren yn cydberthyn â'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant cofrestredig ac yn cefnogi datblygiad cynllun gwella.

Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus:

- Cynhelir archwiliad hyfforddi blynyddol i ganfod anghenion hyfforddi'r sector.
- Mae'r awdurdod lleol yn cynhyrchu rhaglen hyfforddi flynyddol ar gyfer y sector, gan wella sgiliau a gwybodaeth gweithwyr yn y Blynyddoedd Cynnar ac ym maes gofal plant a chwarae, gan arwain at well ansawdd gwasanaeth.
- Cefnogir ymarferwyr gyda rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i sicrhau bod lleoliadau'n parhau i gynnig mannau diogel o ansawdd i blant chwarae ynddynt, ac mae'r rhan fwyaf o hynny wedi'i ariannu'n llawn trwy Grant Hyfforddi a Chymorth Llywodraeth Cymru (o dan y Grant Plant a Chymunedau).
- Hyrwyddir gwaith chwarae ym mhob cyfle gyrfa, ffair swyddi a diwrnod agored, ac yn ein hymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, i gefnogi recriwtio i'r gweithlu a'i gadw.
- Mae'r tîm chwarae yn gweithio'n agos gyda Thîm Datblygu Chwaraeon Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin i ddarparu cymaint o wasanaethau ag y bo modd, lleihau dyblygu, a hyrwyddo chwarae trwy raglen hyfforddi i'r holl staff a gwirfoddolwyr.

**Gwendidau**

Darpariaeth:

- Rhai bylchau mewn gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o’r hyn sydd ar gael mewn cymunedau lleol.

Y gweithlu:
- Dibyniaeth ar wirfoddolwyr i gefnogi cyflwyno darpariaeth chwarae mynediad agored.
- Gall recriwtio a chadw yn y sector effeithio ar ddarparu gwasanaethau / argaeledd darpariaeth.
- Cynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd gwaith chwarae.

Hyblygrwydd:
- Gall amgylcheddau strwythuredig gyfyngu ar chwarae digymell a chreadigrwydd.

Cost:
- Gall rhai darpariaethau fod yn gostus i deuluoedd.

**Cyfleoedd**

Darpariaeth:
- Ymchwilio i’r ddarpariaeth mewn cymunedau lleol sy’n cefnogi cyfleoedd i chwarae, i ehangu’r cofnodion a gedwir.

Y gweithlu:
- Edrych ar opsiynau a sicrhau cyllid i ehangu’r tîm chwarae i gefnogi’r ddarpariaeth.
- Recriwtio mwy o wirfoddolwyr i gefnogi darparu gwasanaethau.

Ymgysylltu â’r gymuned:
- Potensial i feithrin cysylltiadau cymunedol cryf drwy fentrau chwarae lleol.
- Datblygu rhaglenni chwarae newydd a diddorol sy’n diwallu anghenion amrywiol.

**Bygythiadau**

Darpariaeth:
- Darparwyr ddim yn cydnabod eu rôl wrth gefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae.

Ffactorau economaidd:

- Darperir hyfforddiant ar sail adfer costau llawn, a allai atal rhai darparwyr rhag cael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Gall ansefydlogrwydd economaidd effeithio ar argaeledd swyddi ac adnoddau hyfforddi yn y sector.
- Byddai argaeledd cyllid ar gyfer tîm chwarae'r awdurdod lleol yn effeithio ar y gallu i gefnogi darparu cyfleoedd chwarae mewn cymunedau lleol.

Gofynion sy'n newid:

- Gall anghenion a disgwyliadau sy'n esblygu gan rieni a phlant olygu bod angen diweddariadau cyson i hyfforddiant.

## Synergedd polisi, ymgysylltu, eiriolaeth a gwybodaeth:

**Mater Dd: Mesurau a ddefnyddir i hyrwyddo mynediad at chwarae, gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau**
**Matter E: Cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y gweithlu chwarae**
**Matter F: Lefel ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol**
**Matter Ff: Y graddau y mae polisïau eraill awdurdod lleol yn ystyried yr angen i wella cyfleoedd chwarae i blant**

### *Yr hyn y mae plant wedi'i ddweud wrthym:*

**Mynediad at chwarae:** Mae darpariaeth/digwyddiadau a drefnir gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid yn cael eu gwerthfawrogi gan blant, eu teuluoedd a chymunedau lleol. O ganfyddiadau'r arolygon a gweithgareddau'r grwpiau ffocws, mae plant yn croesawu'r ystod o gyfleoedd yn ystod cyfnodau gwyliau'r ysgol. Mae digwyddiadau fel sesiynau chwarae mynediad agored mewn parciau wedi dod yn gynyddol boblogaidd, gydag adborth gwych, ac yn parhau i weld twf yn y nifer sy'n mynychu.

- 'Diwrnod hyfryd ac ar garreg y drws'
- 'Diolch yn fawr iawn'
- 'Prynhawn hyfryd – diolch'
- 'Gwaith gwych, bawb'
- 'Mor hyfryd gweld plant yn chwarae ac yn mwynhau eu hunain'

**Ymgysylltu â'r gymuned:** Mae amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu cymunedol yn digwydd ar draws yr awdurdod lleol, o ymgynghoriadau ffurfiol i foddhad defnyddwyr. Mae'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad yn amlinellu sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ymgysylltu'n effeithiol ac annog cyfranogiad i lywio a gwella ein prosesau gwneud penderfyniadau, gyda phedwar amcan lefel uchel sy'n nodi sut mae'r awdurdod lleol yn anelu at gyflawni ymgysylltu a chyfranogiad effeithiol.

Amcan 1: Prif ffrydio dulliau ymgysylltu a chyfranogi effeithiol ar draws y cyngor
Amcan 2: Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Blaenau Gwent yn y ffordd fwyaf effeithiol a chydweithredol
Amcan 3: Annog ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol yn weithredol i gymryd rhan yng ngweithgareddau gwneud penderfyniadau'r cyngor

| |
|---|
| Amcan 4: Cynnal arfer gorau mewn ymgysylltu a chyfranogi a chadw i fyny â'r datblygiadau diweddaraf i helpu i gefnogi ein cymunedau<br><br>Mae'n rhoi cyfle i gymunedau lleol rannu barn, meddyliau a syniadau, gan sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n gwella mynediad at wasanaethau, eu hansawdd a'r ddarpariaeth ohonynt.<br><br>**Ymgysylltu â'r gymuned:** Mae lefelau ymgysylltu cymunedol yn amrywio ar draws yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod mwy o ymwybyddiaeth o gyfleoedd i chwarae, sydd wedi arwain at fwy o gyfranogiad. Mae Wild Tots, sesiynau chwarae mynediad agored, cynlluniau chwarae canolfannau chwaraeon, diwrnodau chwarae a digwyddiadau canol tref i gyd wedi gweld cynnydd mewn ymgysylltu a chyfranogiad ac maent yn parhau i dyfu.<br><br>**Cyhoeddusrwydd a gwybodaeth:** Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth ac arweiniad cyfrinachol a diduedd am ddim ar ystod o wasanaethau sydd ar gael i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'n cynnig gwybodaeth mewn perthynas â darpariaeth chwarae, gofal plant, mannau chwarae, materion iechyd, dewisiadau gyrfa, budd-daliadau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Darperir gwybodaeth trwy linell gymorth dros y ffôn, cyfleuster chwilio ar-lein ar wefan y gwasanaeth, trwy e-bost, a thrwy wefannau cyfryngau cymdeithasol.<br><br>**Cyhoeddusrwydd a gwybodaeth:** Mae strategaethau cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, taflenni a chyfarfodydd cymunedol, yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae ac yn hyrwyddo cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer chwarae. Yn aml, dywedir wrth y tîm chwarae 'Doeddwn i ddim yn gwybod bod hyn yn digwydd heddiw' a 'Doeddwn i ddim wedi'i weld yn cael ei hysbysebu yn unman'. Gyda symudiad i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn bennaf ar gyfer cyhoeddusrwydd, mae angen bod yn ymwybodol nad yw pob teulu'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, ac mae angen parhau i hyrwyddo digwyddiadau'n weledol ar draws ac o fewn cymunedau lleol.<br><br>**Datblygiad proffesiynol:** Mae darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau chwarae yn sicrhau bod staff wedi'u cyfarparu â'r sgiliau a'r wybodaeth i hwyluso profiadau chwarae o ansawdd uchel. Mae rhieni'n cydnabod pwysigrwydd staff cymwys addas pan fyddant yn ystyried clybiau a grwpiau y mae eu plant yn mynychu.<br><br>**Synergedd polisi:** Mae chwarae'n cyfrannu at lawer o flaenoriaethau strategol gwahanol sy'n ymwneud ag addysg, datblygiad a lles plant, a chydlyniant cymunedol. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod pob agwedd ar fywydau plant yn destun dylanwadu gan eu hangen a'u hawydd i chwarae, a bod cyfleoedd chwarae'n gallu helpu i liniaru effeithiau negyddol tlodi ar fywydau plant, gan sicrhau bod gan bob plentyn y 'dechrau gorau mewn bywyd'.<br><br>Mae'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn yn cydnabod nad yw meysydd gwannach o reidrwydd oherwydd polisi neu arfer gwael ond oherwydd diffyg gwybodaeth ar adeg casglu data yn ogystal â chyfyngiadau ar gapasiti swyddogion. |
| **Cryfderau**<br>Ymgysylltu: |

- Mae’r awdurdod lleol yn rhannu cyfleoedd sy’n gysylltiedig â chwarae ac yn dangos ymgysylltiad da drwy gyfryngau cymdeithasol a’i wefan.
- Diwygiodd yr awdurdod lleol ei ganllawiau ar gymunedau lle mae cyfle i chwarae yn 2024 i hyrwyddo, annog a chefnogi ymgysylltiad cymunedol wrth sicrhau bod mannau ar gael a’u bod yn addas ar gyfer chwarae.

Hyfforddiant:

- Mae’r Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yn cynnal dadansoddiad blynyddol o anghenion hyfforddi’r gweithlu.
- Mae’r Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yn sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu ar gael i staff drwy’r rhaglen hyfforddi flynyddol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, gofal plant a chwarae.

Polisi:

- Mae’r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a’r cynllun gweithredu yn cyfrannu at y cynllun llesiant ac wedi’u hymgorffori ynddo o dan ffocws ‘Rhoi’r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn’.

**Gwendidau**

Cefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae:

- Diffyg cynrychiolaeth gan weithwyr addysg neu iechyd ar y Grŵp Cefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.
- Nid yw rhai cydweithwyr yn cydnabod bod eu gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae.

**Cyfleoedd**

Cefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae:

- Parhau i hyrwyddo ac ymgysylltu â chyfarwyddiaethau ac unigolion i gynyddu ymwybyddiaeth.
- Ymgysylltu â mwy o grwpiau mewn cymunedau lleol i gefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae.
- Gwahodd cydweithwyr o’r sectorau addysg ac iechyd i gael eu cynrychioli yn y Grŵp Cefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.
- Parhau i archwilio pob agenda polisi am ei heffaith bosibl ar gyfleoedd chwarae plant a datblygu chwarae fel thema drawsbynciol.
- Sicrhau bod gwasanaethau’n cydweithio i gydnabod ac ymgorffori gwerth chwarae yn eu cynlluniau.
- Codi ymwybyddiaeth o’r ddyletswydd digonolrwydd cyfleoedd chwarae a sut mae’n cefnogi meysydd polisi.
- Creu baneri i’w gosod mewn cymunedau lleol i hyrwyddo sesiynau chwarae.

**Bygythiadau**

Adnoddau:

- Er mwyn bwrw ymlaen ac archwilio’r opsiynau cost isel neu ddim cost o fewn y cynllun gweithredu chwarae, mae’n ofynnol bod amser swyddogion yn cael ei ddyrannu i barhau i hwyluso’r Grŵp Cefnogi Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i weithredu a monitro chwarae ac adrodd ar gynnydd yn ei gylch i’r cyngor.